

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 356 - 60c
Medi 2017

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Brîd Defaid
Llanwenog
yn ennill**



Tudalen 5

**Enillwyr Sioe
Llanllwni**



Tudalen 15

**Haf
llwyddiannus i
Annie**



Tudalen 18

Llongyfarchiadau MAWR



Heiddwen Tomos, Dôl-mebyd, Pencarreg yn ennill y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Fôn.

Enillydd y Fedal Ryddiaith yn Steddfod Llambod oedd Ioan Wyn Evans o Gaerfyrddin, un o blant Llambod a mab y Mans. Dyma'r eildro iddo ennill y Fedal yn Llambod, y tro cyntaf ddeng mlynedd yn ôl. Ar hyn o bryd mae'n gweithio'n llawrydd i'r radio a theledu.

Islwyn Edwards, Aberystwyth yn ennill Coron Llambod am y 4ydd tro am ei gasgliad o gerddi rhydd.

Yn ennill Cadair Llambod roedd Nia Powell, Felindre Uchaf, Cwmann a Nantmor, Eryri. Ysgrifennodd 7 englyn am 7 gwyl.



Daeth y graddau gorau i'r canlynol: yn eistedd - Rebeca James, Catrin Jones, Nest Jenkins, Miranda Parry, Julianna Barker, Rhian Jones. Yn sefyll - Alwyn Evans, Carys Jones, Rhys G Jones, Carys Williams, Iwan Evans, Elan Jones, Ben Biddulph, Rhiannon Davies, Ceri Pickett, Rhian Harries, Joseph Coard.



10 disgybl hapus iawn ym Mro Pedr ar ôl derbyn eu canlyniadau TGAU: O'r chwith Bechgyn - Anisur Rahman, Cyffin Thomas, Osian Jones, Max Parry, Iestyn Edwards

Merched - Mari Elen Lewis, Sara Jarman, Cerys Pollock, Grace Page a Charlotte Smith.



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Trydarodd
[@Clonc360](#)
Awst 27

Oedfa [@SteddfodLlanbed](#) hyfryd gyda'r Parch John Talfryn Jones yn pregethu a chynulleidfada yn Noddfa #Llanbed bore ma.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@AnwenButten](#)
Awst 20

Hyfryd i ennill parau Ceredigion gyda [@AlisButten](#) [@AeroBowls](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@Craffwr](#)
Awst 19

Y sgôr derfynol mewn gêm cyn dechrau tymor: Tîm leuenctid [@LampeterTownRFC](#) 10, [@llandeilorugby](#) 7. Gêm dda.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@tanfirellanbed](#)
Awst 15
25P1 newydd ddychwelyd mewn cyflwr bril ar ôl gwasanaeth blyneddol mewn gweithdy [@mawwfire](#) Llanfair ym Muallt.
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@DorMorgan](#)
Mehefin 9

Derwyddon glas Llambled! [#eisteddfod](#) [#orsedd](#) [#môn](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
[@Clonc360](#)
Gorffennaf 29

Ffair Fwyd Llambled [@LampeterFoodFes](#) wedi cael diwrnod arbennig heddi. Cannoedd o bobl wedi bod yno.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion '17

Dweud Jôc

Darllen darn heb atalnoda
Adrodd (gydag effeithiau sain)

Sgets - Castell Aberteifi 1176

Band Sied yr Ardd

Côr - unrhyw gân All Symudiad

Cystadlaethau
Llwyfan

Cystadlaethau
Gwaith Cartref

Ysgol Gynradd: Llun Dwrgi

Ysgol Uwchradd: Blog Yr Arglwydd Rhys,
wythnos cyn Eisteddfod Nadolig 1176
(hyd at 300 gair)

Brawddeg: Y Mwldan

Dysgwyr: Hysbys radio am Fae Ceredigion

Limrig: I ddechrau "Un noson mi welais y
dwrgi"

Neges Drydar: Yn gwahodd Donald Trump
i Aberteifi (hyd at 140 llythyren)

Trefnir gan



Arweinydd:
Keith Henson

Anfonwch eich gwaith cartref
(o dan ffugenw, gyda manylion
cyswilt ac enw eich papur bro
mewn amlen wedi atodi) erbyn

Medi'r 29ain at:
Jonathan Rees, Brithdir,
Llangrannog, SA44 6RD

Nos Wener Hydref
13eg
Neuadd Felinfach
Drysau 7.00 y.h.
Cychwyn 7.30 y.h.
Mynediad £3

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Medi a Hydref Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Siwan Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Lois Williams.

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Balchder a phryder

Mae'r haf wedi bod yn gyfnod o ddathlu, ac o bryderu. Yn ystod Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen Llanbedr Pont Steffan dathlwyd yr hanner cant mewn steil. Un o'r uchafbwyntiau oedd areithiau'r llywyddion – er nad yn aml y byddwn i'n disgwyl dweud hynny, cyfle i fynd mas am baned yw araith y llywydd mewn aml i eisteddfod a digwyddiad! (Er taw un o'r goreuon o'm profiad i oedd anrhydeddu 'Merched Cribyn' tair blynedd yn ôl – Olwen Davies, Llinos Henson a Dilwen Jenkins.) P'run bynnag, eleni, croesawyd dau gymeriad lleol sydd wedi profi'n llwyddiannus, sef Dorian Morgan a'r enwog Shân Cothi, ac un mewnfudwr sydd yntau wedi profi llwyddiant, Kees Huysmans. Dyma dri sy'n gallu siarad a'n hala ni i chwerthin! Diolch iddynt am eu hiwmor a'u naturioldeb. Braf gweld pobol o'r fro sydd heb fagu gormod o adenydd i hedfan yn ffoenuchel nes anghofio'u gwreiddiau, a phobol sy'n symud i'n hardal gan barchu ein iaith a'n diwylliant, ac yn gallu cyfrannu at y gymdeithas. Dyma falchder bro ar ei gorau.

Yn ystod yr un wythnos, sef wythnos gŵyl y banc Awst, caewyd drysau Spar yn y dref, ac aeth y newyddion ar led am ddyfodol Gwesty'r Llew Du. Dyma ergyd i'r dref, ac yn bryder i bobol yr ardal. Yn ogystal â'r colli swyddi (12 o staff yn Spar a 17 yn y Llew Du), mae yma bryder oherwydd colli siop a ystyrid yn un enwog a sefydlog, a gwesty ag iddo hanes yn ymestyn nôl i ddiwedd y 17eg ganrif. Mewn tref fach fel Llambled, mae colli busnesau a siopau yn ergyd fawr. Mae'n dda bod pobol yr ardal yn pryderu, ac yn gweld bod angen trafod y dyfodol. O leiaf mae'r awydd hwnnw a'r ewyllys yn dangos ein bod yn dymuno'r gorau i'r ardal, er ei bod hi'n ddyddiau cynnar i ragweld beth a ddaw ar hyn o bryd.

Cloncen

Cofrestrwch ar ein gwefan gymunedol

www.clonc360.cymru

er mwyn cyfrannu eich stori chi.



O'r Cyngorau Bro



Cyngor Cymuned Llanybydder

Rhoddydd rhodd o £100.00 er cof am Mr Mick Maskelyne a fu farw yn ddiweddar. Mae'r £100.00 yn mynd tuag at Ymchwil y Galon, cangen Llanybydder a Llambled.

Cydymdeimlwn â Mrs Sylvia Maskelyne yn ei phrofedigaeth.

Mae clwyd newydd sydd yn costio £463.50 sydd yn mynd i gael ei gwneud gan Teifi Forge a bydd yn cael ei rhoi ar lwybr yr Annedd am fod y llall yn beryglus.

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Cyng Geraint Davies Clerc: Gwennan Jenkins
Cyfeiriad Gwefan:- www.cyngorllanwenogcouncil.org.uk

Hyfforddiant Diffibrilwyr - Mi fydd hyfforddiant yn cael ei gynnal nos Wener y 29ain o Fedi am 6.30yh yn Neuadd Drefach er mwyn dangos i chi sut i ddefnyddio'r diffibrilwyr pan fo person neu blentyn yn cael trawiad ar y galon. Mae lle i 20 o bobl, felly y cyntaf i'r felin, enwau i'r Clerc os gwelwch yn dda neu Gadeirydd y Cyngor Cymuned – wedi ei gyfyngu i'r rhai sy'n byw yn y Plwyf. Mae diffibrilwr ar gael o fewn y Plwyf yn y lleoliadau canlynol:

- Ciosg Cwmsychpant
- Ciosg Cwrtnewydd
- Ciosg Drefach
- Neuadd Gorsgoch

Cofgolofn Drefach - Mae'r gofgolofn bellach wedi ei hail-leoli nid nepell o'r safle gwreiddiol ac mae'r gwaith bron â dod i ben yno. Diolch i Gyngor Sir Ceredigion am gyflawni'r gwaith ar ran y Cyngor Cymuned.

Ciosg Coch Drefach - Mae Ciosg Drefach bellach yr un fath â chiosg Cwrtnewydd, mae wedi cael ei drawsnewid i fod yn hwb cymunedol a'i ddefnyddio yn lle i fynd a menthyg llyfrau darllen, yn gartref i un o'r diffibriliwyr ac hysbysfwrdd. Cofiwch ei ddefnyddio i hysbysebu eich digwyddiadau. Mae Ciosgs ac hysbysfyrddau ynddynt hefyd ym Mhenffordd, Blaencwrt, Yr Aber a Chwmsychpant i chi eu defnyddio.





MEDI

- 9 Ffair Ram ar Gae pentref Cwmann.
- 11 Cyfarfod Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Felinfach.
- 14-16 Gŵyl Flodau Eglwys y Plwyf, Betws Bledrws rhwng 11.00 yb - 5.00 yp.
- 16 Cyngerdd Mawreddog Dathlu 50 oed Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn Theatr Felinfach. Artistiaid: Côr Canna, Steffan Rhys Hughes a Charlie Lovell Jones. Tocynnau o'r Theatr 01570 470697.
- 16 Pobl Cwrtnewydd People - Helfa Drysor ar droed am 2.00yp cwrdd yn festri Capel Seion. Lluniaeth ar gael.
- 17 Aberduar 275: Oedfa'r dathlu am 2.00y.p, te i ddilyn a Chymanfa Ganu am 6.00y.h. Croeso cynnes i bawb!
- 20 Cwrdd Diolchgarwch Maesyffynnon am 2.00y.p. Y gŵr gwadd yw Mr Gareth Jones o Lambed. Croeso cynnes i bawb.
- 22 "Ladies Night" yn Neuadd Llanfihangel ar Arth. Mwy o fanylion i ddilyn.
- 24 Oedfa Ddiolchgarwch Ebeneser am 2.00y.p. Y cennad fydd y Parch Peter Thomas, Aberystwyth. Croeso cynnes i bawb.
- 24 Oedfa Deulu yn Noddfa am 5 o'r gloch gyda Mr. Sion Meredith.
- 25 Cwrdd Diolchgarwch Noddfa a'r Parch Andy Herrick yn gwasanaethu am 7.00y.h.
- 25 Gwasanaeth Saib am Obaith yn Eglwys Sant Pedr am 2 o'r gloch i'r teuluoedd sydd wedi eu cyffwrdd â chancr.
- 29 Hyfforddiant defnyddio DIFFIBILIWR Neuadd Drefach 6.30yh. Enwau i Gwennan Jenkins, Clerc Cyngor Cymuned Llanwenog.
- 30 Pobl Cwrtnewydd People - cyflwyniad gan Mr Simon Evans, Troedrhwi yn festri Capel Seion am 7yh ar hanes plwyf Llanwenog trwy'r oesoedd.
- 30 Cynhelir Bore Coffi o 10.30am-12.30pm yn Llystroyddin, Maesllan, Llanbedr Pont Sfeffan. Elw at Eglwys Llanybydder.

HYDREF

- 2 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn, Cwrtnewydd am 7.00y.h.
- 4 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p.
- 5 Cwrdd Diolchgarwch Capel Seion, Cwrtnewydd am 7.00y.h.
- 7 Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Rhaglen lawn a ffurflen gofrestru ar gael drwy gysylltu ag enwaulleoedd@gmail.com
- 10 Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw am 7.00y.h. Y pregethwr gwadd fydd y Parchedig Huw George, Sir Benfro. Croeso cynnes i bawb.
- 13 Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach am 7.30y.h.
- 19 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm, Cwmsychpant am 7.30y.h.
- 20 Noson yng nghwmni Bois y Rhedyn yn Llew Du Llanybydder am 8.00y.h. Tocyn £6. Elw tuag at Diabetes UK Cymru.
- 20-22 Taith 'Teilwng yw'r Oen' i Lundain. Trefnir penwythnos i gefnogwyr i weld y perfformiad yn Eglwys Gymraeg Canol Llundain. Cysyllter gydag un o aelodau'r Corau am fanylion neu â Theatr Felinfach.
- 21 Pobl Cwrtnewydd People - noson cwis yn festri Capel Seion am 7yh. Mynediad £2 gan gynnwys lluniaeth.
- 24 Noson Bingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8 yh. Elw tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon.
- 28 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint. Manynylion pellach wrth Mair Williams, 01558 650292.

TACHWEDD

- 1 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p.
- 2 a 4 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid.
- 11 Gŵyl Gerdd Dant Llandysul a'r Fro yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul.
- 18 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Venue Cymru, Llandudno.

RHAGFYR

- 6 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p.
- 9-16 Panto Theatr Felinfach.

IONAWR 2018

- 31 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p.

Llanfair Clydogau

Darlith Hanes

Cawsom noson ddifyr iawn nol ym mis Gorffennaf pan ddaeth Dr. Leslie Mason, Coleg y Drindod Dewi Sant, i roi darlith ddarluniadol ar darddiad 11/11 a seremoni'r cofio. Cyflwynwyd Dr Mason i'r gynulleidfa gan Alan Leech. Mae Alan ei hun yn arwain yr ymgyrch i godi cofgolofn yn Llanfair, un o bentrefi Ceredigion sydd heb un. Bydd y gofgolofn yn cynnwys enwau'r milwyr a laddwyd a'r rhai a ddaeth adre. Siaradodd Dr Mason yn fanwl am gofgolofnau lleol gan bwysleisio bod rhain yn rhoi cyfle i bobol ganolbwyntio ar eu colled pan nad oedd gobaith ganddynt deithio i'r mannau lle syrthiodd eu perthnasau.

Diolch i Sally Leech am baratoi lluniaeth ysgafn.

Llongyfarchiadau

Estynnwn ein llongyfarchiadau cynnes i Edward Branston, Fachddu, ar ennill gradd BA 2.1 gydag anrhydedd mewn Gwyddorau Naturiol o Goleg Girtton, Caergrawnt. Dymuniadau gorau iddo am y dyfodol.

Arddangosfa Gelf

Cafwyd arddangosfa hyfryd a llwyddiannus eleni eto am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Dangoswyd gwaith gan saith o artistiaid lleol, Ali Scott, Claire Parsons, Cynthia Westney, Sue Powell ac Aerwen Griffiths, a chrochenwaith gan Dodi a Jamie Herschel, Nant y Felin. Yr artist gwadd eleni oedd Ali Smith o Landdewi Brefi yn arddangos ei cherfluniau pren a'i ffyn. Diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi.

Sioe Llanfair



Diwrnod bishi iawn fu Dydd Llun Gŵyl y Banc i bobol Llanfair gan i ni gynnal ein sioe am y drydedd flwyddyn eleni. Daeth llawer o bobol ynghyd i gymryd rhan yn y gwahanol ddosbarthiadau ac i gymdeithasu wedyn yn y barbeciwl. Llywydd y dydd eleni oedd Mrs. Elizabeth Mercer o Swydd Caint, gynt o Gelli Ddyfod. Dyma yr enillwyr yn y gwahanol ddosbarthiadau.

Yr enillydd â'r marciau uchaf yn nosbarth yr oedolion oedd Iris Quan, Blaencwm yn derbyn tlws parhaol wedi ei noddi gan Liz Mercer a Chwpan wedi ei noddi gan W.D.Lewis. Yn nosbarth y coginio yr enillydd oedd Meinir Miller, Cysgod y coed yn derbyn tlws parhaol wedi ei noddi gan Oswyn Lewis ac yn nosbarth y plant, Daniel Davies, Nantymedd oedd yr enillydd yn derbyn Cwpan wedi ei noddi gan Eleanor Evans, Nantymedd. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran.

Cafwyd sioe lwyddiannus dros ben a hoffai pwyllgor y sioe ddiolch i bawb a weithiodd mor galed ymhob rhan o'r paratodau ac ar y dydd i wneud y sioe yn llwyddiant. Hefyd i'r beirniaid a'r stiwardiaid am eu gwaith trylwyr ac i aelodau'r Pwyllgor ei hunain am yr holl waith wrth drefnu'r Sioe dan arweiniad y cadeirydd Dai Jones, Llanfairfach.



Enillydd y cwpan am y pwyntiau uchaf yn adran y plant, Daniel Davies, Nant y Medd, Llanfair.



Enillydd adran y cŵn, Judith McKay, Wernmacwydd, Cellan gyda Fred y ci defaid a Nye y Labrador.

Cwmsychpant

Pen-blwydd

Dathlodd Linda Bashford, Craigle ei phen-blwydd yn 60 oed ddechrau mis Awst. Hefyd, dathlodd Lewis Davies, Cilmeri ben-blwydd arbennig yn ystod mis Awst.

Gobeithio eich bod wedi mwynhau.

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Roy Rees, Pantyrnnon yn teimlo'n well erbyn hyn ar ôl iddo dreulio cyfnod yn yr ysbyty.

Barnu Stoc



Cafodd Beca Jenkins, Hafan y Cwm haf llwyddiannus iawn wrth farnu stoc eleni: -

Sioe Llanbed: 1af Barnu Biff dan 18 oed; 3ydd yn barnu ŵyn tew dan 18 oed. Sioe Gorsgoch: 1af barnu ŵyn tew dan 18 oed ac ennill cwpan her Meinigwynion Mawr am yr unigolyn â'r pwyntiau uchaf. Sioe Llandysul: 1af yn barnu gwartheg godro dan 18oed ac yn ennill cwpan her.



Is-bencampwr adran y ceffylau yn Sioe Cwmsychbant oedd enillydd yr Adran D, eiddo Sheena Hill, Penffordd.

Treialon Cŵn Defaid a Sioe Cwmsychpant 2017

Cynhaliwyd Treialon Cŵn Defaid a Sioe Flynyddol Cwmsychpant a'r Cylch ar gaeau Waun, Rhydowen ar ddydd Sadwrn, Awst y 12fed trwy garedigrwydd Mrs. Ella a Mr. Vernon Davies.

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn unwaith yn rhagor ac eleni roedd yr elw yn mynd tuag at Feiciau Gwaed Cymru. Rhannwyd neges gan gynrychiolydd o'r elusen yn sôn am waith arbennig y gwirfoddolwyr ar draws y wlad.

Dechreuodd diwrnod y sioe yn gynnar gyda'r treialon a bu'r cŵn defaid yn rhedeg o'r bore bach tan yr hwyr gyda chystadleuwyr o nifer o wledydd y tu hwnt i Gymru. Unwaith eto eleni roedd y babell yn orlawn o gynnyrch amrywiol ac roedd y cyfan o safon uchel. Daeth cystadleuwyr o bell ac agos i gystadlu. Cynhaliwyd mabolgampau i'r plant hefyd yn y bore ac mi wnaeth nifer helaeth ennill rhubanau. Cafwyd arddangosfa o hen beiriannau hefyd a oedd yn werth i'w gweld.

Ein llywydd eleni oedd Mr. Gwynfor Lewis, Bronwydd, Heol-y-Bont, Llambod neu Gwynfor W.D. Lewis fel yr adnabyddir ef yn lleol. Mae'r teulu wedi bod yn gefnogol i'r sioe dros y blynyddoedd a braf iawn oedd cael ei gwmni ef a'i deulu yn ystod y dydd. Diolch yn fawr iawn iddo am ei rodd haelionus i'r coffrau.

Ar ddiwedd y prynhawn cynhaliwyd ein gwerthiant blynyddol o gynnyrch y babell a gyfrannwyd gan y cystadleuwyr, gyda dau o blant y Cwm wrth y llyw sef Sion Jenkins a Dewi Jones. Unwaith yn rhagor bu'n arwerthiant llwyddiannus a chodwyd arian sylweddol i'r elusen o ganlyniad i haelioni'r cyfrannwyr.

I gloi diwrnod llwyddiannus arall, cafwyd adloniant yng nghwmni'r grŵp lleol a phoblogaidd sef Newshan. Unwaith eto eleni cynhaliwyd sesiwn ganu i'r plant yn gyntaf ac yna am y drydedd flwyddyn, cystadlueaeth "Taclo'r Tasgau" i dimau o bedwar aelod. Cafwyd llawer o hwyl gyda'r cefnogwyr yn gweiddi a chefnogi eu timoedd. Enillwyr y tasgau eleni oedd "Tim C.F.F.I. Llanwenog" sef Steffan Jenkins, Carwyn Davies, Meinir Davies a Sioned Davies. Llongyfarchiadau mawr iddynt. Gorffennwyd y noson yng nghwmni Newshan a chafwyd canu da a dawnsio hyd oriau mân y bore.

Dyma restr enillwyr y dydd:

Gwinoedd – Megan Richards, Aberaeron; **Cyffeithiau** – Sirian Davies, Cwrtnewydd; **Coginio** – Wendy Davies, Penffordd; **Gwaith Llaw** – Ceinwen Evans, Talgarreg; **Creffft** – Carwyn Davies, Penffordd; **Ffyn** – Keith Allan, Carwe, Llanelli; **Ffotograffiaeth** – Eleri Jenkins, Llanbedr Pont Steffan; **Arlunio Plant Bl. 2 ac o dan** - Aaron Jac Lewis, Ysgol Cwrtnewydd; **Bl. 3 a 4** – Megan Davies, Ysgol Cwrtnewydd; **Bl. 5 a 6** – Katy Moyes, Ysgol Cwrtnewydd; **Adran Plant Dan 8** – Glesni Rees, Penffordd; **9 ac o dan 12** - Elen Morgan, Drefach; **12 ac o dan 17** - Carys Evans, Talgarreg; **Adran Blodau** - Andrew Davies, Llandysul; **Celfyddyd Blodau** – Erika Davies, Llanwnnen; **Cynnyrch Gardd** – Elliw Grug Davies, Drefach.

Adran Geffylau Pencampwr yr Adran Geffylau – Alis Evans, Talgarreg; **Pencampwr yr Adran Geffylau i Blant** - Cadi Evans, Talgarreg.

Adran Ddefaid Pencampwr Croesfrid – Gareth Evans, Blaencwrt; **Taleb gwerth £25** – Elfyn Morgans, Gorsgoch.

Hen Beiriannau - Iwan Evans, Bwlch-y-fadfa



Pencampwr y defaid yn Sioe Cwmsychbant oedd hwrdd blwydd, eiddo Gareth Evans, Gorsgoch.

Dymuna pwyllgor Treialon Cŵn Defaid a Sioe Cwmsychpant ddiolch yn fawr iawn i'r beirniaid, y stiwardiaid, y noddwyr a phawb arall am bob cyfraniad a chymorth a dderbyniwyd er mwyn sicrhau sioe lwyddiannus arall.

Graddio



Llongyfarchiadau i Delor Evans, Bryngwyn ar dderbyn Gradd BA gydag Anrhydedd mewn Cynhwysiant Cymdeithasol ar ôl astudio ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin. Pob lwc i ti yn dy swydd newydd ym mis Medi.

Clwb Clonc

Medi

£25 rhif 229 :

Iwan Jenkins,
Tyllwyd, Maestir, Llambod.

£20 rhif 103 :

Mrs Bet Davies,
Glynteg, Llanybydder

£15 rhif 65 :

Eurwyn Davies,
47 Heol-y-Gaer, Llanybydder.

£10 rhif 507 :

Mrs Flo Williams,
Brynamlwg, Llanwnnen.

£10 rhif 316 :

Paul Jones,
Tynewydd, Maesycrugiau.

£10 rhif 259 :

Mair Jones,
1 Maes-y-felin, Llambod.

£5 rhif 378 :

Mrs Gwyneth Morgan,
Llety'r Dderwen, Cwmann.

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAI,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Carpedi

Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Mared Jones

Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed

☎ 01570 423135

☎ 07811917799 /

07968821035

✉ mwnciffwnci@hotmail.com

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Croeso i Tegwen a Hana Jones i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen. Maent yn setlon'n dda iawn ac yn hapus ymlith eu ffrindiau newydd.

Hoffwn ddymuno yn dda i Carys Davies wrth iddi ddechrau ei chwrs yng Ngholeg Ceredigion. Yn ystod tymor yr Haf daeth Carys atom bob dydd Mercher yn wirfoddol i roi cymorth yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen tra roedd yng Ngholeg Aberystwyth. Mwynhaodd y profiad yn fawr a'r plant yn hoff o'i chwmni.

Hoffwn ddymuno yn dda hefyd i Mr. Jac Rees yn ei swydd newydd yn Ysgol y Strade. Bu Jac yn dod atom yn gyson bob bore Llun i ddatblygu sgiliau rygbi disgyblion CA2 a'r Cyfnod Sylfaen. Roedd y plant yn disgwyl ymlaen at y sesiynau yma yn fawr.

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus wrth gystadlu mewn sioeau, eisteddfodau a chwaraeon dros yr haf. Llongyfarchiadau i Alwena Owen am ddod yn ail yn y gystadleuaeth llefaru dan 12 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Fôn o blith dros 60 o gystadleuwyr. Camp ardderchog Alwena!

Cyn yr haf bu Alfie Davies yn chwarae pêl-droed gyda thîm Caerfyrddin dan 7 oed yn erbyn Manchester United. Roedd yn brofiad enfawr iddo ac yn enwedig gan iddo sgorio gôl! Da iawn ti, Alfie.

Ar ddiwedd tymor yr Haf cawsom wers addysgiadol a diddorol iawn pan ddaeth "Dyn Y Gwenyn" atom. Roedd wedi dod â nifer o adnoddau yn ymwneud â gwenyn yn ogystal â'r gwenyn! Cafodd y plant gyfle i flasau mēl a thrafod yr offer a gwisgo'r dillad pwrpasol. Rhyfedd fel mae natur yn gweithio!

Buom ar ein trip ysgol i Fferm Folly gan gael diwnod bendigedig, yn gweld yr holl anifeiliaid, yn chwarae tu allan a thu fewn a chael picnic, gyda gwylan yn dwyn bisgeden oddi wrth un o'r staff! Roedd yn rhaid galw yn y siop cyn cychwyn am adre. Roedd pawb wedi mwynhau mas draw.

Yn ystod ail wythnos mis Medi bydd gennym wythnos "Cymru Cŵl" gyda nifer o weithgareddau Cymreig eu naws i bob oedran er mwyn lansio'r Siarter Iaith. Bydd y gweithgareddau yn cynnwys edrych ar storïau Cymraeg, cwis, dawnsio gwerin, coginio, gwisgo fel cymeriad mewn stori, trip i'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Fore dydd Gwener, Medi 15fed bydd gennym Fore Coffi, yn dechrau am 9:30. Mae croeso i bawb yn y gymuned ddod i gael lluniaeth a chlonc a chael hanes ein hwythnos arbennig. Diolch i Miss Evans am gydlynw'r gweithgareddau.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol



Llongyfarchiadau

Bu Mari Lois a Hana Grug, Trysor, Llanllwni yn cystadlu yn y Sioe Frenhinol yn arddangos eu diadell o foch cwta a chwnigen. Dyma lun ohonynt gyda'u gwobrau.

Mis Gorffennaf –

1af - £50 – Jane ac Alan Powell, Gwarcwm, Maesycrugiau. 2ail - £40 – Tom Jones, 32, Bryndulais, Llanllwni. 3ydd - £30 – Adrian George, Haulfryn, New Inn. 4ydd - £20 – Diane Judd, Tegfan House, Llanllwni. 5ed - £10 – Steffan Thomas, Caeglas, Llanllwni. 6ed - £5 – Eirlys Evans, Rhoswen, Maesycrugiau.

Mis Awst –

1af - £10 – Catrin Davies, Manordeifi, Llanllwni. 2ail - £5 – Ifor Jones, Highview, Llanllwni. 3ydd - £5 – Dirk VanRyswyk, Gilwern, Llanllwni.

Cydymdeimlo

Yn ystod yr haf collwyd Mrs Betty Davies, gynt o Beili Bach a Gwndwn yng Nghartref Alltymynydd yn 85oed. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'r teulu oll yn eu galar ac fe roddwyd ei gweddillion i orffwys yn Eglwys y Plwyf, Llanllwni.

Pen-blwydd Priodas

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i David John a Sallie Davies, Maes a fydd yn dathlu eu priodas aur yn ystod y mis.

Diolch

Dymuna teulu'r diweddar Mrs Betty Davies [gynt o Feili Bach a Gwndwn] ddiolch o waelod calon am bob cefnogaeth ac arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth.

Yn ystod y misoedd diwethaf dathlodd John ac Ivy Evans, Aberdaudwr eu pen-blwyddi yn 80 oed. Maent yn ddiolchgar iawn am yr holl gardiau, anrhegion a chyfarchion a gyrhaeddodd yr aelwyd.

Eglwys Sant Luc Clwb 100 mis Awst

1af Dafydd a Gwenllian Owen (rhif 2) 2il Llyr Jones (rhif 109) 3ydd Angharad Jones (108).

Undeb y Mamau

Bydd y tymor newydd yn dechrau

ar Hydref 10fed gyda'r Cymun arferol.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r canlynol:

teulu y diweddar Mrs Betty Davies, Beilibach; teulu y diweddar Mr John Hughes, Waunfawr; teulu y diweddar Mrs Wilson, Blaendyffryn a theulu y diweddar Mrs Topping, Meadowvale.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Miss Morfydd Sivell Bonton; Mr Edward Downer, Llwynonn a Mrs Sheila Joynson, Undergrove.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Alwena Mair Owen, Cwmderi ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fôn yn ystod mis Awst ac yn cael ail am lefaru dan 12 oed.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Elin Jones, Tynewydd (Lifestyle Kitchens) yn ei swydd newydd ddechrau mis Medi yn gyflwynydd rhaglen blant Cyw ar S4C. Pob dymuniad da i ti, Elin. Braf yw gweld wyneb cyfarwydd ar y teledu.

Dathlu Pen-blwydd

Llongyfarchiadau mawr i Tom Harries Castle View ar ddathlu ei ben-blwydd yn 85 oed yn ystod mis Awst. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Sioe Frenhinol

Llongyfarchiadau mawr i Mari a Hana Jones, Trysor ar eu llwyddiant yn y Sioe Frenhinol.

C.Ff.I. Llanllwni

Shwmae a chroeso nôl aton ni ar ôl hoe fach dros yr Haf, ac er nad ydym yn cwrdd yn wythnosol dros wyliau'r Haf fe fuon ni'n brysur yn trefu Diwrnod Hwyl y Pentref, a gynhaliwyd ddydd Sadwrn, 8fed Gorffennaf, ar y cyd â'r Ysgol Gynradd. Roedd yna lu o

Llanllwni

weithgareddau i ddiddanu pobl o bob oed megis mabolgampau, cystaleuaeth tynnu'r gelyn a charnifal ac yn sicr roedd yn ddiwrnod ar gyfer y teulu cyfan. Braff oedd clywed ein bod wedi codi swm terfynol o £834 i'r clwb ar ddiwedd y dydd.

Pinacl y gwyliau i nifer o deuluoedd yw'r Sioe Frenhinol wrth gwrs, ac eleni fe aeth Betsan Jones a Sioned Bowen i gystadlu yn y gystadleuaeth goginio yn dilyn eu llwyddiant yn Rali'r Sir ym mis Mai.



Llongyfarchiadau iddynt am gyrraedd y 4ydd safle. Hefyd, bu Ifor Jones ac Anwen Jones yn cystadlu yn y gystadleuaeth beirniadu Cobiau Cymreig, a Betsan Jones yn y beirniadau defaid. Llongyfarchiadau i chi'ch tri am eich cyfraniad i sicrhau bod C.Ff.I Sir Gâr yn ail yn yr Adran Beirniadu Stoc erbyn diwedd yr wythnos, da iawn chi.

Ddechrau mis Awst roedd ein AGM am y flwyddyn 2017-2018, ac mae'n bleser cyhoeddi mai ein Cadeirydd am eleni yw Arwel Jones, ein Hysgrifenyddes yw Catrin Evans a'n Trysorydd yw Betsan Jones. Llywyddion y clwb am y flwyddyn yw Mr a Mrs Keith a Rhian Jones, Penllain. Llongyfarchiadau i'r holl swyddogion newydd, a hoffai'r clwb ddiolch o galon i swyddogion llynedd am eu gwaith diflino dros y flwyddyn ddiwethaf, a hoffem ddiolch i holl aelodau'r gymuned am eu cefnogaeth a'u haelioni.

Yn ogystal, llongyfarchiadau i bob aelod o'r clwb sydd wedi derbyn eu canlyniadau TGAU a Lefel A, a dymunwn bob lwc i'r rheini fydd yn mynd i'r Brifysgol ym mis Medi!

Diwrnod Hwyl

Brynhawn Sadwrn 8fed Gorffennaf cynhaliwyd diwrnod hwyl Llanllwni a oedd yn cael ei drefnu ar y cyd rhwng yr Ysgol, y Cylch Meithrin a'r Clwb Ffermwyr Ifanc. Braff oedd cael trefnu gweithgaredd cymunedol gyda'n gilydd. Gwnaed elw o £2931.07. Bydd y swm hwn yn cael ei rannu rhwng y tri mudiad ynghyd â'r Clwb ar ôl Ysgol.



Cafodd y diwrnod ei gynnal ar Gae Chwarae'r pentref. Llywyddion y dydd oedd Mr a Mrs Roy Thomas. Dyma Ifor Jones ar ran y CFFI a Annwen Evans ar ran y CRA yn cyflwyno plat i'r llywyddion.

Rhodddwyd cwpan am y plentyn / person â'r wisg ffansi orau ym mhob categori ac yn dod i'r brig roedd Tegwen a oedd wedi gwisgo fel Miss Mefus. Diolch yn fawr i Mr Sion Harris am noddi'r cwpan hwn.



Roedd y diwrnod yn un llwyddiannus a hoffai pwyllgor Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol, pwyllgor y Cylch Meithrin a'r Clwb Ffermwyr Ifanc ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y dydd.

Sioe C.Ff.I. Llanllwni

Mae Gŵyl Banc mis Awst yn swnio'n bell pan rydyn ni fel clwb yn cwrdd am y tro cyntaf ddechrau mis Ionawr i drefnu ein Sioe a Threialon Cŵn Defaid, ond mae'r amser wedi hedfan ac yn awr mae popeth drosodd am flwyddyn arall! Diolch i'r drefn roedd y tywydd yn

ffafriol, ac felly braff oedd gweld y caeau'n llawn a phawb yn mwynhau ar gaeau Abercwm, a diolch i'r teulu am adael i ni ddefnyddio'r caeau eleni eto. Hoffem ddiolch i lywydd anrhydeddus y dydd sef Mr Tom Bowen, Pwllglas am ei bresenoldeb a'i rodd hael. Eleni, roedden ni'n codi arian at ddwy elusen, sef Ambiwylans Awyr Cymru ac Uned Cancr y Fron, Ysbyty Tywysog Phillip, Llanelli, a hoffem fel clwb ddiolch i holl bobol yr ardal am eu haelioni trwy gydol y dydd, ac mi fyddwn yn cyhoeddi'r elw yn y rhifyn nesaf. Roedd y babell gystadlu yn llawn eleni eto, a'r safon mor uchel ag erioed, a dyma restr o brif enillwyr y dydd:

Adran Ddefaid - Iseldir – Teulu Jones, Blaenblodau; **Ucheldir** – Teulu Jones, Highview; **Prif Bencampwr** – Teulu Thomas, Bryn.

Adran y Plant - Blwyddyn 2 ac iau – Einir George; **Blwyddyn 3 – 6** – Elan Siôn Evans; **Blwyddyn 7 – 13** – Ffion Williams.

Adran Lysiau – Brian Leigh, White Moss. **Adran Flodau** – Anwen Jones, Blaenblodau. **Adran Goginio** – Roseanne Joynson, Brithdir. **Adran Gyffeithiau a Gwin** – Shân Phillips, Llether. **Adran Luniau** – Teulu Howells, Pantglas. **Adran Cynnyrch Fferm** – Teulu Howells, Gwarallt.

Adloniant y Nos, Sioe Fideo Gwartheg- Adran Odro – Teulu Charles, Aberglwydeth; **Adran Fiff** – Teulu Evans, Aberceiliog; **Pencampwr Gwartheg** – Teulu Powell, Gwarewm.

Cylch Meithrin Llanllwni

O fis Medi ymlaen bydd Cylch Meithrin Llanllwni yn cwrdd bob bore dydd Llun, Mawrth, Mercher a Gwener ar gampws yr ysgol gynradd, rhwng 8.45-12. Cynigir addysg a gofal o safon uchel trwy gyfrwng y Gymraeg i blant 2 oed tan oedran ysgol. Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Bethan Vernon ar 07377 781977 neu bethan704@btinternet.com.

Nos Wener, yr 22ain o Fedi, cynhelir noson bampro i fenywod i godi arian tuag at Gylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni. Bydd y noson yn cael ei chynnal yn yr hen ysgol yn Llanfihangel-ar-Arth, i ddechrau am 6.30yh. I archebu tocynnau, ffoniwch Donna ar 07854 072195 neu Hayley ar 07890 715477.

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Bydd Cylch Ti a Fi Llanllwni yn dechrau ddydd Iau, y 7fed o Fedi, o 9yb tan 11yb. Dewch i gymdeithasu a sgwrsio gydag eraill, a rhannu syniadau ar gyfer ein hamserlen am y flwyddyn i ddod.

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob bore dydd Iau yn ystod y tymor, rhwng 9-11yb ar gampws yr ysgol gynradd. Croeso i rieni, gofalgwyr, mam-gus a thad-cus ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol weithgareddau a chael cyfle am sgwrs dros banded.

Cwmann

Clwb 125 Neuadd Sant Iago Mis Gorffennaf

1. Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 68; 2. Noel James, Emlyn Cottage, Cwmann, 42; 3. Annie Jones, Arfryn, Cwmann, 63; 4. Tom James, Gaeralaw, Cwmann, 115; 5. Michael Miah, Saya-villa, Cwmann, 44; 6. Rhian Jones, Hafod Cottage, Cwmann, 29; 7. Phyllis Price, Brynderi, Cwmann, 89.

Clwb 125 Mis Awst

1. Ceinwen Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 30. 2. D Herbert, Dolfor, Cwmann, 84. 3. Heledd Jones, Penrhos, Cwmann, 104. 4. Joan Davies, 23, Cwrt Deri, Cwmann, 145. 5. Eluned Lewis, Tanlan, Cwmann, 45. 6. Sara Humphreys Jones, Frongelli, Alltyblaca, 81. 7. Margaret Jones, Y Glyn, Cwmann, 90.

Clwb 225 Pwyllgor Pentref Cwmann

Mis Gorffennaf

1. Glyndwr Jones, Glyn, Cwmann, 204. 2. Dorren Harris, 21 Heol-Hathen, Cwmann, 131. 3. Huw & Rose Jones, Pantycelyn, Cwmann, 56. 4. Julian Evans, Brynlllys, Bryn Road, Llambled, 4. 5. Helen Randell, Maeshendre, Cwmann, 149. 6. Von Abel, Neuadd Deg, Cwmann, 12. 7. Julie Davies, 19, Cwrt Dulas, Llambled, 29.

Clwb 225 Mis Awst

1. Emyr Jones, Hollis, North Rd, Llambled, 147. 2. Seren Ling, Glynbedw, Cwmann, 104. 3. Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 207. 4. Sian Evans, Waun, Llanybydder, 42. 5. Kevin Doyle, Caradog Vue, Cwmann, 133. 6. John James, Maesteg, Cae Ram, Cwmann, 87. 7. Ann Roberts, Bryn View, Parc-y-rhos, Cwmann, 68.

Arholiadau

Llongyfarchiadau i bawb fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau Lefel A a TGAU a phob lwc i chi yn y dyfodol.

Priodas Dda

Pob dymuniad da i Leah Hargreaves, 17 Heol Hathren a Joni Evans o Lanllwni a briododd yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad at Mrs Ciss Davies a'r teulu, 5 Heol Hathren ar farwolaeth ei phriod, tad a thad-cu, sef Mr Euros Davies.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Mrs Arthur Jones, Teifi Castle yn eu colled wrth golli eu mam. Cofiw'n hefyd am unrhyw deulu arall sydd wedi colli anwyliad yn ystod yr haf.

Eisteddfod Genedlaethol

Daeth llwyddiant eleni eto i ran Elin, Y Garn pan gipiodd Parti Llefaru 'Man a man' y wobr gyntaf a

Chôr Llefaru Sarn Helen yn dod yn drydydd yn Ynys Môn. Daliwch ati.

Pencampwr

Llongyfarchiadau i Sion Evans, Cae Ram ar ennill Pencampwriaeth Prydain yn y ras Enduro ac yn un o dîm Cymru. Da iawn ti.

Rygbi



Llongyfarchiadau mawr i Tomos Jones, Awel y Grug, Cwmann, a fu'n cynrychioli Tîm Cyffwrdd Cymru i Fechgyn o dan 18 oed yn Iwerddon ar 18-20 Awst 2017.

Gwnaeth y bechgyn dan 18 gyrraedd y ffeinal yn erbyn yr Alban ond colli yn ystod eiliad olaf y gêm.

Cafodd Tomos brofiad bythgofiadwy a dymunwn bob llwyddiant iddo ar gyfer y dyfodol.

Diolch

Dymuna Mrs Ciss Davies a'r teulu, 5 Heol Hathren ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd ar farwolaeth ei phriod Mr Euros Davies yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau



Llwyddiant i Beca ac Elan, Cwmann yn ennill y ddeuawd dan 21 oed yn Eisteddfod Llambled.

Hefyd, i Elan am gipio'r ail wobr yn y gystadleuaeth Ryngwladol yn Stafford fel tîm cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus – Darllen Saesneg Clwb Ffermwyr Ifanc Sir Gâr yn ddiweddar.

Rhifyn Hydref

yn y Siopau

4 Hydref

Erthyglau, Newyddion

a Lluniau i law erbyn

24 Medi

Eisteddfod yn 50 oed

Eleni, roedd Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen Llanbedr Pont Steffan yn dathlu'r hanner cant. Cynhaliwyd yr Eisteddfod gyntaf ar ddydd Llun Gŵyl y Banc, Awst 1967, mewn pabell. Yn yr eisteddfod gyntaf hon y gwobrwywyd un o emynau mwyaf poblogaidd Cymru – 'Tydi a wnaeth y wyrth', gan W. Rhys Nicholas, a'r flwyddyn ganlynol y gwobrwywyd tŵn Eddie Evans, 'Pantyfedwen'.

Cynhaliwyd Eisteddfod y dathlu ar benwythnos Gŵyl Banc Awst yn Ysgol Bro Pedr. Roedd blas lleol i'r Eisteddfod ar y dydd Sadwrn, gyda chyfle i blant y dalgylch serennu ar y llwyfan. Ar y dydd Sul, cynhaliwyd oedfa'r Eisteddfod yn Noddfa, a Llais Llwyfan Llambled gyda'r hwyr. A chafwyd diwrnod cyfan o gystadlu ar y dydd Llun, yn ogystal â Thalwrn y Beirdd yn festri Shiloh. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran, a diolch i bawb am eu cefnogaeth. Diolch hefyd i'n llywyddion, Dorian Morgan, Kees Huysmans a Shân Cothi.

Bydd y dathliadau'n parhau ar nos Sadwrn, 16 Medi, gyda Chyngerdd Mawreddog yn Theatr Felinfach. Bydd blas lleol a chenedlaethol i'r arlwy, gyda Delyth Medi Lloyd, merch o Lambled, yn dod â'i chôr, Côr Merched Canna, a dau o artistiaid disglair y genedl, Steffan Rhys Hughes a Charlie Lovell-Jones, i'n diddanu. Cysylltwch â Theatr Felinfach i archebu'ch tocynd!



Carys Griffiths-Jones, Fronddu, Cwrtnewydd oedd enillydd yr Unawd Gymraeg.



Enfys Hatcher Davies, Llanddewi Brefi yn 2il yn y Brif Gystadleuaeth Llefaru dros 21 oed.



Enillydd y Goron Dr Islwyn Edwards gyda disgyblion Ysgol Felinfach a fu'n dawnsio i'w gyfarch.



Autelya Stasiulyté o Lithuania, enillydd y wobr o £1,000 ynghyd â thlws er cof am Hazel Davies yn cael ei gyflwyno iddi gan Twynog Davies yn Llais Llwyfan Llambled. Mae Autelya yn astudio cerddoriaeth yng Ngymru gyda Buddug Verona James, Aberteifi.

Llanybydder

17.9.17 Aberduar 275

Sefydlwyd capel Aberduar, Llanybydder yn 1742, ac mae trefniadau mewn llaw ar gyfer dathlu'r 275 o flynyddoedd oddi ar hynny yn y capel ddydd Sul 17 Medi. Bydd oedfa'r prynhawn am 2 yn rhoi cyfle i addoli yng nghwmni'r gweinidogion a fagwyd yn Aberduar ac sydd erbyn hyn yn gwasanaethu gydag eglwysi ar hyd a lled Cymru. Cawn hefyd gwmi cyn-weinidogion y capel. Ar ôl te dathlu yn y festri, cynhelir y Gymanfa Ganu am 6, pan fydd eitemau yn cael eu darparu gan Ysgol Gynradd Llanybydder, Manon Mai, Côr Lleisiau'r Werin a Chôr Cwmann. Mae'r eglwys yn gobeithio arddangos ffotograffau a defnyddiau eraill am hanes Aberduar, ac os oes gennych rywbeth rydych yn meddwl a fyddai o ddiddordeb, fe'ch gwahoddir i gysylltu â Dewi Davies ar 01570 480456 neu Alan Jacob ar 01570 480905.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu y diweddar Gareth Jones, Afallon, Rhydybont a fu farw yn sydyn. Priod hoff Lorraine, brawd ac ewythr annwyl. Bu'r angladd yn hollol breifat yn ôl ei ddymuniad.

Coets



Llongyfarchiadau i Eirig Jones, Brynhyfryd, am ennill Pencampwriaeth Coets Prydain yn Stonehaven yn yr Alban y mis diwethaf.



Grŵp o Eglwys San Pedr, Llanybydder a gymerodd ran yn y daith gerdded ar Fynydd Llanybydder ar noson lawog sef nos Wener 18fed o Awst 2017. Diolch i bawb a oedd wedi noddi'r achlysur. Fe gasglodd Heather (Jones) £1,000 eleni eto at goffrau'r Eglwys.

Pen-blwydd arbennig

Pen-blwydd hapus iawn i Thelma Jones, Tegfryn, sy'n dathlu pen-blwydd arbennig ddechrau mis Medi. Mwynhewch y dathlu.

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Len ac Anona Ebenezer, Cedars ar ddod yn dat-cu a mam-gu unwaith eto. Croeso cynnes i Eric Leonard, mab i Chris a Ren yn Swindon.

Sefydliad Prydeinig y Galon

Cangen Llanybydder a Llambled Ar yr 22ain o Orffennaf cafwyd diwrnod cneifio yn Fferm Capeli a rhoddwyd yr elw eleni o £410 at Sefydliad y Galon. Diolch yn fawr i Janice a John am eu caredigrwydd. Diwrnod arbennig o dda. Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i chi.

Arholiad Piano

Llongyfarchiadau i Ffion Mai Davies, Rhydybont, ar lwyddo yn ei harholiad piano gradd 4 yn ddiweddar ac i Sioned Fflur Davies ar lwyddo yn ei harholiad theori gradd 5.

Diolch i mam-gu, Mrs Eiry Jones, Maes y llan, Llambled am eu dysgu.

Eglwys San Pedr

Clwb 100 Enillwyr Mis Gorffennaf

1. Angharad Jones £15. 2. Myra Downer £10. 3. Val Wood £5
Noson Bingo: Llwyddwyd i gasglu £617 yn ystod y noson o fingo a gynhaliwyd ym mis Mai.

Digwyddiad Dewch Nôl i'r Eglwys: Cynhelir gwasanaeth Dewch nôl i'r Eglwys fore Sul 10fed o Fedi 2017 am 9.30am. Croeso cynnes i bawb.

Gwasanaeth Cynhaeaf: Nos Fercher 28ain o Fedi 2017 am 7.00 yn yr Eglwys. Y pregethwr gwadd yw y Parch. Bill Fillery. Bydd cinio ar ôl hynny yn y Llew Du, Llanybydder.

Bore Coffi: Cynhelir Bore Coffi yn Llystroyddin, Maesllan, Llanbedr Pont Steffan fore Sadwrn 30ain o Fedi 2017 o 10.30am tan 12.30pm. Elw at goffrau'r Eglwys. Croeso cynnes i bawb.



Ni wnaeth y tywydd anwadal darfu dim ar yr arddwest yng nghartref Sheila a Derek Smith, Fronlas yn ddiweddar i godi arian tuag at gangen Llanybydder a'r cylch o'r NSPCC. Agorwyd y digwyddiad gan Dr John Tudor Williams a'r Athro Melanie Williams, Y Bryn, sydd newydd ddod i fyw yn y pentre. Roedd y digwyddiad yn dathlu 30 mlynedd Childline sydd yn cefnogi plant a phobl ifainc a chodwyd dros £800 at yr achos. Fe fwynhawyd cacennau a lluniaeth hyfryd ac fe roddodd busnesau lleol wobrwon raffl arbennig iawn. Fe gododd y stondin planhigion dros £100. Cyflwynodd Vicki Davies gacen arbenig yn siâp can dŵr. Fe wnaeth Julie Richards, Rheolwraig Gymunedol yr NSPCC, ddiolch yn gynnes iawn i Sheila a Derek Smith ac i'r pwyllgor am eu gwaith diflino. Cyflwynodd Julie lythyr wedi ei fframio i gadeirydd y gangen, Gwen Jones, oddi wrth Esther Rantzen a wnaeth sefydlu Childline yr holl flynyddoedd yn ôl, gan ddiolch i gangen Llanybydder am ei gwaith caled a gellir gweld hynny yn y siop yn y pentre. Yn y llun gwelir Margaret Griffiths (Trysorydd), Angela Roberts (Ysgrifennydd), John a Melanie Williams, Julie Richards (NSPCC) a Gwen Jones (Cadeirydd).

Eisteddfod Genedlaethol

Diolch

Dymuna Daniel Thomas, Llys-neuadd ddiolch am y cardiau, nwyddau ac ymweliadau a gafodd ar ôl ei lawdriniaeth yn Llundain yn ddiweddar. Diolch o galon.

Hoffai Elonwy ddiolch am y gefnogaeth neilltuoal a dderbyniodd yn dilyn ei henwebiad i'r Orsedd yn Eisteddfod Sir Fôn.

Diolch arbennig i aelodau Capel Rhydybont am y tusw blodau; i fois Côr Cwmann a merched Côr Lleisiau'r Werin am y ddau barti ffantastig a drefnwyd ganddynt, y cyfan yn hollol gyfrinachol ac annisgwyl, ond yn bleserus a hapus iawn.

Hefyd diolch i Ken Lewis ac "Ann o'r Llan", Gwarduar, am y penillion hyfryd; i Elonwy a Kees am yr anrheg unigryw, ac i'm ffrindiau a deithiodd i'r gogledd pell i fod yn bresennol yn seremoni'r Urddo. Gwerthfawrogrir y cyfan yn fawr iawn.

Dymuna Philip a Hannilia Court, Ceincoed Hill, ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, anrhegion, blodau a dymuniadau gorau a gafwyd ar ddathlu eu priodas ruddem ar Orffennaf 14eg. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd.

Silian

Cydymdeimlo Cydymdeimlwn â theuluoedd Tynlofft a Gwarffynnon yn dilyn marwolaeth tad a thad-cu annwyl, sef Sam Davies.



Llongyfarchiadau i Mrs Elonwy Davies, Gwendraeth ar gael ei hurddo i'r Wisg Werdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst.

LLEW DU, LLANYBYDDER

Noson yng nghwmni
BOIS Y RHEDYN

Cadeirydd -
Cynghorydd Ieuan Davies

20 Hydref 2017
am 8 o'r gloch
Tocyn £6

ELW TUAG AT
DIABETES UK CYMRU

Llanybydder

Clwb Hoci Llanybydder

Cafwyd noson lwyddiannus yng Nghinio Blynnyddol Clwb Hoci Llanybydder nol ym mis Gorffennaf yn yr Hive, Aberaeron. Enwebwyd Elen Powell yn gapten y clwb gyda Caryl Rees Williams a Rhian Thomas yn is-gapteiniaid. Aeth gwobrau'r tymor i Sioned Williams, chwaraewraig y tîm; Hedydd Wilson, y chwaraewraig fwyaf addawol, a'r sgorwraig uchaf i Rhian Thomas (13 gôl).

Diolchodd Angharad Morgan i bawb am ei chefnogi fel capten drwy'r flwyddyn ac yn enwedig am eu parodrwydd i chwarae, eilyddio a dyfarnu. Mae 'di bod yn flwyddyn brysur yn llawn profiadau i bawb a'r goron oedd ennill y Gynghrair.

Bydd yr ymarferion yn ail ddechrau nos Fercher y 6ed o Fedi am 6.30yh ar yr astro yn Llambod. Os am fwy o wybodaeth, edrychwch ar ein tudalen Facebook @clwbhociillanybydder.



Sioned Williams, Hedydd Wilson, Angharad Morgan, Rhian Thomas, Caryl Rees Williams ac Elen Powell.



Llwyddiant Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Ffion Mai Davies, Rhydybont, Llanybydder am ennill y wobwr gyntaf ar yr Unawd Offeryn Cerdd dan 12 oed ar ddydd Sadwrn a dydd Llun Eisteddfod Llanbed. Cafodd drydydd ar y Llefâr 10-12 oed ar y dydd Llun hefyd. Llongyfarchiadau i Sioned Fflur Davies am ennill y wobwr gyntaf ar yr Unawd 12-15 oed ac am gael ail ar yr Unawd Piano 12-19 oed.

Gwellhad Buan

Gobeithio fod Myra Morris, Rhydybont yn teimlo'n well erbyn hyn ar ôl derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Sefydliad Prydeinig y Galon
Cangen Llanybydder a
Llambod

Noson Bingo

Yng Nghlwb Rygbi
Llanybydder

24 Hydref 2017

8 yh

Elw tuag at Sefydliad
Prydeinig y Galon

ADUNIAD
Ysgol Uwchradd Llambod
1963

Cyfarfod nesaf i drefnu
aduniad.

Croeso i bawb yn y
Castle Green, Llambod

Nos Fercher, Medi 20fed
am 7.00y.h.

**Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services**



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?

Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol

Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref

Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com

true potential
wealth management

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwy cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weinï cysurus
Clwb Rygbi Llambod yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd a yb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:

Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

**WILLIAMS
& BOURNE**

CYFREITHWYR,
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambod**

01570 422206 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Llanbedr Pont Steffan

Cymdeithas Hanes Llambed

Llawenydd i aelodau Cymdeithas Hanes Llambed oedd clywed bod yr Amgueddfa, sy'n cael ei rhedeg gan y Gymdeithas Hanes, wedi derbyn anrhydedd am ei defnydd o'r iaith Gymraeg. Derbyniwyd tystysgrif oddi wrth Siarter Iaith Ceredigion yn cydnabod ei hymrwymiad i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr esboniadau sy'n cyd-redeg â'r arddangosfeydd a'r hysbysebion ynglŷn â gwaith yr Amgueddfa yn Stryd y Coleg. Cyflwynir tystysgrifau ar lefel efydd, arian ac aur, a braf yw medru dweud ein bod wedi derbyn Tystysgrif Aur.



Jen Cairns o Gymdeithas Hanes Llambed yn derbyn Tystysgrif Aur gan Steffan Rees sy'n gweithio i Fenter Iaith Cyngor Sir Ceredigion.

Cinio Blynnyddol Clwb Rotari Llanbed



Cynhaliodd Clwb Rotari Llanbed ginio yn ddiweddar yng Nghegin Gareth, Goedwig, Llanbed i sefydlu Llywydd y clwb ar gyfer 2017-18. Cafwyd gwledd tri chwr blasus iawn gan Gareth a ddilynwyd gydag araith Kevin Sivyer (Llywydd 2016-17). Cyfeiriodd at uchafbwyntiau'r clwb yn ystod blwyddyn brysur. Ymhlith yr elusennau a gefnogwyd roedd Ward Cleddau yn Ysbyty Glangwili, Cynllun Cyflenwi Dŵr yn Kenya, Tŷ Hafan ac Ambiwylans Awyr Cymru. Sefydlwyd Pauline Roberts-Jones, Llanwenog yn Llywydd 2017-18. Cyflwynodd amlinelliad o weithgareddau'r flwyddyn i ddod cyn sefydlu Rhys Bebb Jones yn Is-Lywydd. Y prif westeion oedd Maer a Maeres Llanbedr Pont Steffan, Y Cynghorydd Hag Harris a Mrs Eiry Morgan a Mr Ben Lake, Aelod Seneddol Ceredigion. Diddanwyd y gwsteion gan y delynores leol, y Parchedig Suzy Bale. Os am fwy o wybodaeth am Glwb Rotari Llanbed a sut i ymaelodi, ewch i'w gwefan:

<http://www.rotary-ribi.org/clubs/homepage.php?ClubID=932> neu cysylltwch â'r Ysgrifennydd, y Parchedig Bil Fillery (07792 958431).

Grŵp Trafod Amaethyddol Llanbed

Bydd Grŵp Trafod Amaethyddol Llanbed yn dechrau tymor newydd ar 26 Medi 2017 yn y Clwb Rygbi gyda noson yng nghwmni WD Lewis a'i Fab. Edrychwn ymlaen at dymor a rhaglen ddiddorol dan gadeiryddiaeth Aneurin Davies (AI) a'i dîm. Croeso i aelodau hen a newydd. Bydd y Grŵp yn dathlu 40 mlynedd yn ystod y tymor a bydd Cinio Mawreddog yn cael ei drefnu – mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Wyn a Velvor Morgan, 9 Ffynnonbedr sy'n dathlu pen-blwydd priodas arian ar 26ain Medi. Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu.



Llun cinio Siop Siarad y dysgwyr yn y Gilfach.



Wil Hughes o Llanbed yn ennill y Rhosglwm gyda'i dractor McCormick International B275 yn nosbarth yr hen beiriannau yn Sioe Tregaron.

Pêl-droed Llambed



Ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 8fed aeth bechgyn tîm dan 10 Llambed i dwrnament olaf y tymor lan yn Bow Street. Cafwyd y diweddsglo perffaith wrth iddynt ennill y twrnament mawr! Tymor gwych i'r bechgyn wrth iddynt ennill pedwar cwpan ac yn ail mewn dau arall. Ymlaen nawr i'r tymor nesaf! Llongyfarchiadau hefyd i dîm dan 8 Llambed a ddaeth yn ail yn Bow Street.

Wrth i'r tymor pêl droed newydd agosau, mae'n bleser cyhoeddi bod y bechgyn canlynol wedi cael eu dewis i chwarae i 'Carmarthen Town Pre-academy' am y tymor sydd i ddod :

Dan 6 - Osian Bird

Dan 7 - Dion Jacobs; Ethan Rees; Jac Jones a Jay Williams

* Dan 8* - Finley Wright; Dion Morris Dyer a Jake Lewis.

Dan 9 - Shane Evans; Louie Jones; Harri Jones ac Elis Jenkins.

Dan 10 - Tomos Lloyd-Jones

Dan 11 - Rhun Davies a Llŷr Davies.

Da iawn bois! Gwneud Llambed yn browd!

Llanbedr Pont Steffan

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Dan Jones, Penarth, Heol-y-Bryn yn well erbyn hyn ar ôl iddo dreulio rhai diwrnodau yn yr ysbyty yn ddiweddar

Cydymdeimlo

Cofiwn am Caradog Jones a'r teulu, gynt o Coedyglyn, Rhodfa Glynhegog, ar golli gwraig, mam a mam-gu annwyl, sef Mrs Nel Jones. Er iddynt symud o Lamedd flynyddoedd yn ôl, roeddent yn dal mewn cysylltiad agos â'r dre. Bu'r angladd yn breifat yn Amlosgfa Bangor yn ystod mis Gorffennaf. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf â chi fel teulu oll.

Cydymdeimlir yn ddwys hefyd ag Eleri Thomas, 38 Penbryn ar golli ei mam.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Delyth a Rob Phillips, Llety Clyd ar enedigaeith mab bach, Tryfan Samuel ganol mis Gorffennaf.

Pen-blwydd

Dathlodd Meirion Siôn Thomas, Gilfachwen, Rhodfa Glynhegog ei ben-blwydd yn 18 oed ddechrau mis Awst. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu.

Diolch

Hoffai Mr John Byron Thomas, Llystroyddin, Maesllan, Llanbedr Pont Steffan, William, Eleri, Ffiona, Erin a Lois ddiolch am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn dilyn marwolaeth gwraig, mam a mam-gu arbennig a hael sef Rachel-Anne Thomas, gynt o'r Hafod, Llanybydder, yna Llystroyddin, Llamedd ac yn ystod y ddwy flynedd olaf yng Nghartref Gofal Allt-y-Mynydd, Llanybydder. Yn arbennig estynnir diolch i: Staff Cartref Gofal Allt-y-Mynydd am eu gofal di-flino; y ficer Suzy Bale a oedd yng ngofal yr angladd a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 22ain o Orffennaf 2017 yn Eglwys San Pedr Llanybydder; hefyd y Wardeniaid ac eraill sef Susan Evans; Valerie Wood; Eurwyn Davies ac Avril Jones. Rhoddwyd Rachel-Anne i orffwys ym mynwent Capel Soar, Llamedd gyda'i merch, y diweddar Lis. Diolch hefyd i Drefnwyr Angladdol Gwilym C Price ei Fab a'i Ferched am eu gwaith urddasol; Gareth (Goedwig) am drefnu'r dorch hyfryd o flodau siap croes wen; Yr Hedyn Mwstard am ddarparu lluniaeth blasus ar ôl yr angladd.

Un o hoff Salmau Rachel-Anne oedd Salm 23 a gallai ei hadrodd ar ei chof, ond gyda chymorth tuag at y diwedd. Yn sicr, mae'r geiriau a ganlyn yn gysur, Daioni a chariad yn ddiau a'm canlynant holl ddyddiau fy mywyd; a phreswyliaf yn nhŷ yr

Arglwydd yn dragywydd.

Casglwyd £150 ar gyfer coffrau Eglwys San Pedr, Llanybydder a £150 at Gartref Gofal Allt-y-Mynydd, Llanybydder yn lle blodau. Diolch i bawb.

Cymdeithas Hanes Llamedd

Bydd tymor newydd y Gymdeithas yn dechrau nos Fawrth, Medi'r 19eg am 7.30yh yn Hen Neuadd Coleg Prifysgol y Drindod Dewi Sant. Siaradwr gwadd y noson fydd Marc Lucas, Curadur yr Amgueddfa Wlân yn Nrefach Felindre, a bydd yn siarad am y 'Brethyn Llwyd' – y diwydiant gwlan yn ystod y Rhyfel Mawr. Croeso cynnes i bawb. Edrychwn ymlaen at weld ffrindiau newydd yn ymuno â ni.

Oedfa'r Eisteddfod

Cynhaliwyd Oedfa'r Eisteddfod eleni yn Noddfa a braf oedd gweld tyrfa luosog iawn wedi dod ynghyd o eglwysi Llamedd a'r cylch. Croesawyd pawb yn gynnes iawn gan Llinos cyn mynd ymlaen i gyhoeddi'r emyn cyntaf. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Delyth a Densil. Cyhoeddwyd yr ail emyn gan Ffion a'r un olaf gan Lowri Elen a chafwyd deuawd swynol gan Elan a Sioned gyda Janet yn cyfeilio.

Cyflwynwyd ein gweinidog gwadd sef y Parchedig John Talfryn Jones, Rhydaman gan Llinos. Ef yw Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru ar hyn o bryd. Hyfryd oedd cael cwmni ei briod Einir gyda ni. Diolchodd yntau am y gwahoddiad a'r fraint o gael pregethu ar achlysur mor arbennig yn hanes yr Eisteddfod a thalodd deyrnged uchel i'r bobol ifanc oedd wedi cymryd rhan yn yr oedfa a gwneud eu gwaith yn ardderchog.

Cyhoeddodd y Gair gydag arddeliad ac erys ei neges yn y cof am amser hir.

Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Ann Morgan.

Diolchodd Alun i'r gweinidog am ei gyfraniad clodwiw a diolchodd hefyd i'r rhai a oedd wedi cyflawni ei gwaith mor raenus yn ystod yr oedfa, i Delyth am ei chymorth gyda'r offer technegol, i bawb am eu presenoldeb a'u rhoddion hael tuag at Gymorth Cristnogol. Cafwyd canu gorfoleddus o'r emyn dôn Pantyfedwen i orffen ac wrth droi tuag adre roedd pawb yn datgan mai da oedd cael dod at ein gilydd i addoli mewn gwasanaeth arbennig iawn.

Dathlu yn Noddfa

Daeth cynulliad teilwng iawn ynghyd i Noddfa i ddathlu 25 mlynedd o weinidogaeth y Parchedig Glan Roberts yn eglwysi Bethel Silian, Caersalem a Noddfa Llamedd a Pysga Bancffosfelen. Croesawyd pawb yn gynnes gan ein gweinidog,

y Parchedig Jill Tomos, a braf oedd cael cwmni Glan a'i briod Meriel, eu hwyres Sophie a pherthnasau eraill, aelodau eglwysi cylch Llamedd, a hefyd cynrychiolaeth niferus o eglwysi Pysga a Bethel y Tymbl ynghyd â llawer iawn o ffrindiau'r ddau o'r ardal. Roedd y dyrfa luosog iawn yn dyst o'r parch tuag atynt.

Cymerwyd at y rhannau arweiniol a chyhoeddwyd yr emynau gan aelodau cylch Llamedd. Wrth gyflwyno cyfarchion ar ran yr eglwysi soniodd Janet am y cyfarfodydd ordeinio a sefydlu yn Noddfa ar Fehefin 27ain, 1992 a Glan wedyn yn gweinidogaethu yn y cylch hyd 2001. Yn ystod y cyfnod hwnnw dywedodd ei fod yn uchel iawn ei barch yn y gymuned ac yn ymwelydd cyson â chleifion yn yr ysbyty ac nid oedd gwahaniaeth ganddo a oeddech yn perthyn i'r Annibynwyr, yr Undodiaid neu unrhyw enwad arall, byddai'n siŵr o wneud amser i alw heibio i'ch gweld. Soniodd bod staff a phreswylwyr cartref Hafandeg yn meddwl y byd ohono ef a Meriel ac yn mwynhau eu gweld yn galw heibio am sgwrs.

Roedd Glan yn cynnal oedfaon yno yn rheolaidd a'r henoed a oedd yn methu mynychu lle o addoliad bellach yn cael cyfle i glywed yr efengyl.

Cafwyd cyfarchion hefyd gan Mill Howells ar ran Pysga a diolchodd i Glan a Meriel am eu gwasanaeth yn ystod cyfnod o bymtheg mlynedd.

Cafwyd pregeth amserol a gafaelgar gan y Parchedig Jill Tomos a phleser oedd gwrandio ar ddatganiad swynol gan Elan, Lisa a Sioned, tair o ferched ifanc Noddfa. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Alwena a chasglwyd tuag at waith Ysgol Sul Noddfa.

Talwyd diolch gan Alun i bawb oedd wedi cymryd rhan gan sicrhau oedfa arbennig iawn.

Yna bu pawb yn cyfranogi o'r te ardderchog oedd wedi ei baratoi gan chwiorydd Bethel, Caersalem a Noddfa yn festri Brondeifi ac yn mwynhau'r gymdeithas o amgylch y byrddau.

Wedi i Glan a Meriel dorri'r gacen ddathlu hyfryd o waith



Gareth, cyflwynwyd cyfarchion gan Ann Griffiths, aelod ym Methel y Tymbl. Soniodd fod Glan wedi mynychu Ysgol Sul Eglwys Dewi Sant yn gyntaf ond ei fod wedi dilyn ffrindiau wedyn i Ysgol Sul Bethel, ac i'r oedfaon yno, a chael ei fedyddio gan y diweddar Barchedig J.S Williams. Ychwanegodd ei fod yn barod iawn ei gymwynas i Eglwys Bethel o hyd. Wedyn bu'r Parchedig Goronwy Evans, gweinidog yr Undodiaid, yn sôn am ei atgofion melyn yntau am gyfnod Glan yn Llamedd a gwneud hynny yn llawn hiwmor. Cyfeiriodd at ei gonsyrn am y cleifion ac at y cydweithrediad arbennig a'r cyfeillgarwch oedd yn bodoli rhwng y ddau ohonynt ar hyd y blynyddoedd.

Cyflwynwyd rhodd i Glan a blodau i Meriel gan Anne Davies a Margaret Jones, sef trysorydd ac ysgrifennydd Noddfa adeg gweinidogaeth Glan. Ymatebodd yntau drwy hel atgofion am y blynyddoedd hapus a dreuliodd yn Llamedd gan ddod â gwên i wyneb pawb. Hefyd diolchodd yn ddiffuant am yr anrhegion a'r croeso twymgalon ac i bawb oedd ynghlwm â threfniadau'r dathlu gan sicrhau diwrnod i'w gofio iddo ef a Meriel.

Pob bendith, Glan a Meriel a iechyd a hir oes. Disgleiried heulwen beunydd ar eich aelwyd yn Nhycroes.

Noddfa

Yn absenoldeb anorod ein gweinidog cynhaliwyd oedfa ar frybudd yn Noddfa wedi ei threfnu gan Janet. Braf oedd gweld nifer dda yn bresennol. Cyhoeddwyd yr emynau gan Tudor, Avanna, John a Verina. Darllenwyd rhan o'r Hen Destament gan Alun a bu Eiry yn darllen rhan o'r Testament Newydd a Delyth yn gweddio. Pleser oedd gwrandio ar Janet yn rhoi hanes Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru a hefyd diwrnod dathlu 150 mlynedd yr Undeb a gynhaliwyd yng Nghanolfan yr Halliwell, Caerfyrddin.

Mwynhawyd amrywiaeth eang o seminarau diddorol iawn ac roedd rhaglen arbennig wedi ei threfnu ar gyfer y plant a'r bobol ifanc yn y Neuadd Chwaraeon. Roedd y lle dan ei sang ar gyfer yr oedfa agoriadol a'r plant wrth eu bodd yn gwrandio ar neges fywiog Martyn Geraint heb anghofio hwyl y gwn dŵr! Roedd hwn yn ddiwrnod i'w gofio a phawb yn uchel iawn eu canmoliaeth am y darpariaethau amrywiol - rhywbeth at ddant pawb o bob oed.

Diolchodd Alun i Janet am ei chyfraniad arbennig ac am drefnu'r oedfa a hefyd i bawb am fod mor barod i gymryd rhan.

Llanbedr Pont Steffan



Y maer, Cyng. Hag Harris, yn cyflwyno'r Aelod Seneddol newydd, Ben Lake, a agorodd y Ffair Fwyd yn swyddogol.

Saethu Targed Clai



Llongyfarchiadau i Alex Biddulph, South Lodge, Llanbedr gynt o Landdewi Brefi a lwyddodd i ennill ei le yn nhîm terfynol Cymru yn y gystadleuaeth saethu targed clai. Fe wnaeth Alex gystadlu yn yr Alban ddiwedd mis Gorffennaf mewn tair cystadleuaeth, sef yr un Brydeinig, Ewropeaidd a Rhyngwladol. Cafodd lwyddiant mawr yn y tair cystadleuaeth ac yn sgil hyn, mae nawr yn mynd ymlaen i gynrychioli ei wlad ym Mhencampwriaeth y byd yn Awstralia yn 2018. Da iawn ti, Alex.

Eisteddfod Genedlaethol



Llongyfarchiadau i Kees Huysmans ar gael ei urddo i'r Wisg Wen yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ysgol Sul Noddfa

Bu'r flwyddyn a aeth heibio yn un lwyddiannus unwaith eto yn hanes Ysgol Sul Noddfa gyda'r plant yn dod yn ffyddlon bob nos Wener a'r rhieni yn barod i roi o'u hamser i gynorthwyo yn wythnosol.

Mae'r plant a'r bobol ifanc wedi cymryd rhan mewn nifer o Oedfaon yr Ifanc gan roi o'u gorau bob amser yn cynnwys y criw ieuengaf sydd o hyd yn llwyddo i godi gwên. Braff oedd gweld y mamau ac ambell i dad hefyd yn barod i gymryd rhan.

Bu'r plant yn diddori preswylwyr Hafandeg gan roi pleser mawr i'r henoed a phawb ohonynt wrth eu bodd yn gwrandao arnynt yn canu a llefaru.

Bu canmoliaeth uchel i'w cyfraniadau yn y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd eleni yn Noddfa.

Hefyd mae'r Ysgol Sul wedi cyfrannu tuag at Fanc Bwyd Llanbedr gan helpu y teuluoedd sy'n gweld bywyd yn anodd yn ein cymuned.

Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau nos Wener 8 Medi o 4 hyd 5 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i'r aelodau presennol ac i rai newydd 4 oed ac yn hŷn. Yr ydym yn cael hwyl wrth ddysgu am Iesu trwy gyfrwng storïau, gwaith crefft, gêmâu Beiblaidd a chaneuon amrywiol. Am fanylion pellach cysylltwch â Llinos ar 423921 neu Janet ar 422856. Edrychwn ymlaen at gydweithio hapus unwaith eto.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod misoedd yr haf.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau gwresog i Janet a Derek Evans, Llanbedr ar achlysur eu Priodas Aur ar y 30ain o Fedi. Oddi wrth y teulu i gyd.

Priodas Arian

Dathlodd Sian a Dorian Jenkins, Fferm Castell, Heol Llanfair eu Priodas Arian ar ddiwrnod olaf mis Awst. Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu.



Cynhaliwyd Carnifal Llanbedr ar Awst 5ed - Brenhines Connie Strain, yn cael ei choroni gan y maer, Cyng. Hag Harris a'r faeres, Mrs. Eiry Morgan. Y tywysogesau oedd Keeley Barrett a Darcy Lambert a'r tywysogion, Jeston Allen a Kieron Matthews.



Y lori orau yn y Carnifal, Lions Sleep Tonight.



Aeth prif wobwr y Carnifal i Osian Morgans neu Rocket Man. Derbyniodd ei wobwr gan y beirniaid, Ben Lake AS a Jo Conti.



Un o uchafbwyntiau haf prysur i athletwyr Clwb Sarn Helen oedd perfformiad Caryl Wyn Davies yn Ras Ryngwladol yr Wyddfa ar y 15fed o Orffennaf gan gyflawni'r 5 milltir i gopa'r Wyddfa a'r 5 milltir i lawr mewn 1 awr 42 munud a 51 eiliad, 8 munud yn gynt na'i hamser blaenorol yn y ras ac yn 11eg o blith y merched yn y dosbarth agored - hynny er gwaethaf codwm wrth ddisgyn. Cafodd Caryl record bersonol am 10 cilometr hefyd yn Stone yn Swydd Stafford ar y 25ain o Fehefin (42 munud a 56 eiliad.)

Mae trefnu rasys lleol yn rhan bwysig o weithgareddau'r clwb ac eleni eto cafwyd ymateb da i ras 6 milltir Felinfach, 30ain o Fehefin a ras 5 milltir Cwmann, 7fed o Orffennaf. Dee Jolly o glwb Sarn Helen enillodd ras y merched yn Felinfach mewn 38 munud a 42 eiliad ond tîm dynion Clwb Athletau Aberystwyth oedd drechaf gyda Gary Wyn Davies yn 1af mewn 33 munud a 13 eiliad, er i Dylan Lewis (33:27) ddod yn ail a Ken Caulkett (33:36) yn 3ydd ar ran Sarn Helen. Cafwyd canlyniadau i'w nodi yn y dosbarthau eraill gan Dawn Kenwright (1af dros 50), Eleri Rivers (ail dros 35) ac ymhlith y dynion Carwyn Davies (1af dros 40), Kevin Hughes (3ydd dros 40), Glyn a Huw Price (1af ac ail dros 50.) Yn y rasys ieuencid Alaw Jones oedd y ferch gyntaf yn y ras 3000 metr dan 16 oed a Jack Caulkett oedd y 3ydd ymhlith y bechgyn. Daeth Rhys Williams yn 1af yn y ras 1500 metr dan 11 oed.

Yng Nghwmman hefyd daeth rhedwyr Aberystwyth i'r brig gyda Aled Hughes yn 1af mewn 28 munud a 22 eiliad ychydig o flaen Gary Wyn Davies a Michael Lai. Ar ran Sarn Helen daeth Ken Caulkett yn 3ydd yn y dosbarth agored, Carwyn Davies yn ail dros 40 oed, Glyn a Huw Price yn 1af ac ail dros 50 a Tony Hall yn 3ydd ar eu hól. Enillydd ras y merched (ac yn 6ed yn y ras gyfan) oedd Caryl Jones o glwb TROTS San Clêr mewn 30 munud a 48 eiliad ond daeth Caryl Wyn Davies yn 3ydd dros Sarn Helen mewn 34 munud a 43 eiliad. Enillodd Eleri Rivers y dosbarth dros 35 oed gyda record bersonol am y cwrs gyda Donna Davies yn ail gyda Dawn Kenwright yn fuddugol dros 50. Braf oedd gweld dros gant yn cymryd rhan yn y rasys ieuencid. Yn y ras 800 metr dan 11 oed Rhys Williams oedd y bachgen cyntaf mewn amser disglair (2 funud a 42 eiliad) gyda Cai Allen a Rhodri Gregson yn ei ddilyn. Faye Jones oedd y ferch gyntaf yn y ras honno, hithau mewn amser disglair (2:46) gyda Cerys Lawson a Gwenllian Llwyd yn ei dilyn. Yn y ras 1600 dan 16 oed daeth Jack Caulkett yn 3ydd o blith y bechgyn (6 munud a 11 eiliad) a Summer Austin Spooner oedd y ferch gyntaf (6:27) o flaen Alaw Jones a Caryl Haf Lloyd.

Bu aelodau'r clwb hefyd yn cystadlu mewn rasys eraill ar hyd a lled y wlad yn y cyfnod hwn. Rheddodd 6 o ferched Sarn Helen Hanner Marathon Abertawe ar y 25ain o Fehefin, tair ohonynt o dan ddwy awr - Delyth Crimes 1:53:03, Donna Teed-Davies 1:55:18, a Jenny Caulkett 1:59:20 ac yn eu dilyn yr oedd Fiona Davies, Heather Hughes ac Emma Gray. Ymhlith y dynion rheddodd Ken Caulkett y cwrs mewn awr 24 munud a 17 eiliad o flaen George Eadon mewn awr 36 munud a 39 eiliad. Wythnos yn ddiweddarach rheddodd George Eadon y Birmingham Black Country Half Marathon (1:36:57.) Yn ras 10 cilometr bryniog Bwlch Y Groes ger Crymych ar y 15fed o Fehefin daeth Tomos Morgans yn 3ydd (43:37) a deuddydd yn ddiweddarach aeth nifer i redeg Hanner Marathon dros lwybrau mwy bryniog fyth Coed y Brenin yn y gogledd. Gwnaeth Kevin Hughes yn arbennig i ddod y 7fed yn y ras (1:50:01) a daeth Tony Hall yn 3ydd dros 60 gyda Mitchell Readwin yn gorffen mewn 2 awr a 13 munud. Enillodd Dawn Kenwright ei dosbarth dros 50 am y drydedd flwyddyn yn olynol a daeth Anwen Davies hefyd i ben â'r cwrs heriol hwn. Cafodd Dawn Kenwright lwyddiant ardderchog hefyd yn Ras Cwm Arian yng Nghrymych ar yr ail o Orffennaf gan ennill ras y merched. Cafodd Dee Jolly lwyddiant yn ras 10 milltir Fan y Big yn y Bannau ar y 9fed o Orffennaf gan ddod yn ail clodwiw i'r cynrychiolydd treiatlhon Prydeinig Helen Marshall. Ar y 23ain o Orffennaf llwyddwyd i godi £665 i Tenovus yn y ras flynyddol 5k yn Llanbed, ras a drefnwyd gan Helen Willoughby ac a enillwyd gan Dylan Lewis o glwb Sarn Helen. Ymhlith rhedwyr ifanc y clwb bu Tomos Morgans yn parhau i ddisgleirio gan ennill Ras y Frenni yng Nghrymych ar yr 21ain o Orffennaf.



Yn wir bu aelodau'r clwb yn cystadlu mewn cymaint o ddigwyddiadau yn ystod Gorffennaf ac Awst nad oes modd rhoi'r manylion llawn yn yr adroddiad hwn. Ymhlith yr uchafbwyntiau yr

oedd y gyfres o dair ras 5 cilometr ar hyd y traeth yn Llandudoch. Daeth Mark ac Eleri Rivers ill dau yn gyntaf yn eu caetgorïau dros y gyfres gyda'u mab Harri yn ail yn ei ddosbarth ef.

Cynhaliwyd Ras Myddfai eleni eto (11eg o Awst) sef tair ras mewn gwirionedd, un ras 2 filltir i blant (Sean Wood o'r clwb yn 7fed), ras 5 milltir (enillydd Tomos Morgans) a ras 8 milltir (Mark Rivers yn 4ydd ac Eleri Rivers yn 4ydd o blith y merched). Mae'r ddwy ras heol 10 cilometr yn Aberteifi (13eg o Awst) a San Clêr (ar yr 20fed) yn hen gyfarwydd i redwyr y clwb ac eleni daeth Glyn Price yn gyntaf yn ei ddosbarth yn y naill ac yn ail yn y llall mewn amser da (38:43 a 38:48) ar ddau gwrw caled. Dee Jolly oedd y ferch gyntaf yn Aberteifi.

Mae hanes hir i ras 10 cilometr Traeth y Borth hefyd ac eleni Ken Caulkett (yn 5ed mewn 36munud a 39 eiliad) oedd y cyntaf o redwyr y clwb gydag Aled Jones, Llewelyn Lloyd, Michael Davies a Michael Taylor yn dilyn.



Yn nes at Lanbed, daeth dwy ras newydd i'r amlwg yn Awst, sef ras llwybr 5 milltir Ras y Dewin yng Nghwrtcadno wedi ei threfnu gan Carwyn Davies ar y 19eg a ras heol 5 milltir a hanner yng Nghilycwm ar y 25ain. Dee Jolly oedd y ferch gyntaf yn Ras y Dewin a daeth ei chymar Simon Hall yn ail ymhlith y dynion y tu ôl i Michael Lai o Ab-erystwyth. Yng Nghilycwm yr oedd y rhedwr ifanc addawol iawn, Archi Morgan o Gaerfyrddin, dipyn o flaen pawb ond daeth Carwyn Davies y 3ydd ymdrechgar dros y clwb.

WINDY CORNER

Coaches

Teithiau Dydd 2017

02/12/17

Marchnad Nadolig Caerfaddon

09/12/17

Marchnad Nadolig Almaenaidd Birmingham

16/12/17

Abertawe Panto Doilg, Siopa a Winter Wonderland

Am Fwy o Wybodaeth, Ffoniwch 01559 384 7

Cyfoeth Sioeau Cefn Cwlad



Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychbant, dydd Sadwrn Awst, 12fed. Cyflwynwyd cwpanau a gwobrau i'r enillwyr gan ylywydd Gwynfor Lewis.



Yr injan ddyrnu, eiddo Iwan Evans, Coed Faerdre, oedd enillydd tarian yr hen beiriannau. Daeth gweld y dyrnwr wrth ei waith â llu o atgofion i amryw o bobl gan ddwyn i gof y dyddiau hynny pan fyddai'r dyrnwr yn mynd o amgylch y ffermydd rhyw unwaith neu ddwywaith y flwyddyn, yn ystod yr hydref neu'r gwanwyn. Roedd diwrnod dyrnu yn ddiwrnod mawr.



Owain Davies, Gwndwn Llanllwni yn derbyn Cwpan yr anifail gorau yn Adran y Gwartheg Godro yn Sioe Llambod gan y llywyddion Andrew a Helen Morgan.



Prif Bencampwr Rhyngfryd y defaid yn Sioe Llambod oedd Texel Glas, eiddo'r Teulu Jones, Beilbedw, Llanllwni ac yn cael cymorth gan Elliw a Cain.



Cynhaliwyd Sioe Gorsgoch a C.Ff.I Llanwenog ddydd Sadwrn Awst, 19eg. Yn y llun gwelir yr enillwyr a'r llywyddion y sioe sef Paul a Menna Jones, Maesycrugiau.



Fflur Morgan yn ennill cystadleuaeth 'Anifail bwytadwy'.



Meinir Miller, Cysgod y Coed ac Iris Quan, Blaen Cwm, enillwyr y pwyntiau uchaf yn yr adran goginio a gwaith llaw yn Sioe Llanfair Clydogau.



Buddugwyr Sioe C.Ff.I. Llanllwni ar ddydd Llun Gŵyl y Banc.


Y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol



Anner yn cael ei dangos gan Eirian Lewis, Llangybi oedd Pencampwr Adran y Gwartheg Duon Cymreig yn y Sioe Frenhinol.



Yn seremoni agoriadol y Sioe Frenhinol derbyniodd Helen Jones, gwraig y llywydd, a'r Llysgenhades Georgina Cornock-Evans sy'n byw yn Harford, Pumsaint fased o flodau gan Gwenno Jones, wyres y Llywydd.



Aled Wyn Thomas, Llanwnnen – ail wobwr yn yr Unawd Tenor 25 oed a throsodd yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017.



Alwena Mair Owen, Cwmderi, Llanllwni a ddaeth yn 2il yn Llefaru dan 12 oed.



Côr Llefaru Sarn Helen a gafodd y 3ydd wobwr. Hyfforddwyd hwy gan Elin Williams, Cwmann. Hi hefyd oedd wedi hyfforddi Parti Llefaru 'Man a Man' a gafodd y wobwr gyntaf.

Gwartheg Codro



Yn y Sioe Frenhinol derbyniodd Buches Walliswood, Clyncoch, Cwrtnwydd [*llun uchod*] a Buches Teglan, Abertegan, Brynteg [*llun ar y dde*] anrhyddedd Master breeder gyda Holstein UK. Llongyfarchiadau gwresog i'r ddau deulu yma.

Dydd Mawrth, Awst 22ain cynhaliodd Clwb Bridwyr Gwartheg Holstein De Cymru eu diwrnod agored gyda Buches Waliswood ar fferm y teulu Williams, Clyncoch, Cwrtnwydd. Dyma'r fuches sydd wedi ennill Pencampwriaeth y brid yng Nghymru eleni. Yn sgil y llwyddiant yng Nghymru fe fydd y fuches yn bwrw mlaen nawr i gystadlu trwy wledydd Prydain.





Llongyfarchiadau i Ysgol Bro Pedr ar ennill gwobr Efydd Cymraeg Campus y Siarter Iaith. Yn y llun gwelir Criw Cymraeg yr ysgol a'r cydlynwyr sef Miss Hedydd Jones a Mrs Llinos Jones yn derbyn y wobwr gan Mrs Menna Jones a Mrs Anwen Jones o'r Awdurdod Addysg.



Jac Rogers disgybl blwyddyn 6 Ysgol Bro Pedr yn ennill cwpan yn rhoddedig gan Mr a Mrs Huw Jenkins am fod yn ffrind a chyfaill da i bawb.



Llongyfarchiadau i Grace Lambert a Rhun Davies sydd wedi cael eu hethol yn Llysgenhadon Efydd Ysgol Bro Pedr am y flwyddyn 2017-2018.



Y disgyblion a gymerodd ran yn Her Fathemateg Gwledydd Prydain 2017 a drefnwyd gan Brifysgol Leeds. Cafodd Alex Willians (canol y rhes flaen) Dystysgrif Aur ynghyd â thystysgrifau am ddod i'r brig yn ei grŵp oed a thrwy'r ysgol ysgafn. Bob ochr i Alex mae dwy a a enillodd Dystysgrif Arian, Nia Jones a Lucy Yuan. Yn derbyn Tystysgrifau Efydd roedd Alex Squire; Ifor Morgan; Nathan Jones; Steffan Holmes; Tomos Davies; Zoe Davies; Oliwia Taisner; Rhun Jones; Sioned Davies ac heb fod yn y llun, Lily Gaiger.



Diolch i ddisgyblion a staff blwyddyn 6 Ysgol Bro Pedr am wasanaeth hyfryd a phob hwyl i chi ym mlwyddyn 7.

Ysgol Bro Pedr Campws Iau

Llongyfarchiadau mawr i Jac Rogers am dderbyn Cwpan Cyfeillgarwch Huw ac Elizabeth Jenkins am ei garedigrwydd tuag at eraill.

Derbyniodd Dewi a Jess wobrau i ddiolch iddynt am eu gwaith fel Llysgenhadon Chwaraeon yr ysgol a phob dymuniad da iddynt wrth iddynt barhau â'r gwaith ym mlwyddyn 7.

Llongyfarchiadau hefyd i Grace a Rhun ar gael eu hethol yn Llysgenhadon am y flwyddyn sydd i ddod. Daeth y disgyblion i'r ysgol mewn gwisg / lliwiau Cymreig a chafwyd amryw o weithgareddau i hybu Cymreictod yn ystod y dydd. Bu rhai yn dawnsio gwerin gyda Miss Sally, eraill yn chwarae gemau Cymraeg gyda Ifan, Ffion a Rhun, eraill yn gwneud gwaith Celf a murlun hyfryd gyda Mrs Thomas a phawb yn gwneud nifer o gystadlaethau hwyliog. Braff oedd gweld y pwyllgor Cymreictod yn arwain y gad, yn beirniadu'r cystadlaethau a rhannu'r gwobrau. Bu'r disgyblion hŷn yn darllen i'r rhai iau a disgyblion y chweched yn dod fel bydis i ddarllen gydag eraill. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo gyda threfniadau'r dydd.

Pleser oedd gwyllo Ifan Meredith a Cerys Angharad yn perfformio yng nghyngerdd Proms Ceredigion a diolch i'r ddau am gynrychioli'r ysgol ac am eu hymroddiad.

Bu disgyblion blwyddyn 6 ar gwrs preswyl ym Mhentywyn ac yn mwynhau'r amryw weithgareddau a diolch i bob aelod o staff am eu gofal ac yn arbennig i Mr John am drefnu.

Bu cerddorfa'r ysgol dan arweinyddiaeth Mrs Helen Williams gyda Mrs Pauline Jones yn cyfeilio yn perfformio mewn gwasanaeth a diolch iddynt am ddatganiadau swynol ac i'r holl athrawon teithiol am eu gwaith diflino yn ystod y flwyddyn.

Derbyniodd yr ysgol wobwr Efydd Cymraeg Campus y Siarter Iaith am eu gwaith yn datblygu'r Gymraeg fel ail iaith a derbyniwyd y wobwr gan gynrychiolwyr o'r Sir mewn gwasanaeth hyfryd dan arweiniad y Pwyllgor Cymreictod gyda Cerys Angharad yn gwneud datganiad swynol ar y delyn.

Cafwyd gwasanaeth hyfryd ar ddiwedd y tymor gan ddisgyblion blwyddyn 6 a diolch iddynt am yr atgofion hyfryd a phob dymuniad da i bob un ohonynt wrth gychwyn ym mlwyddyn 7.



Llongyfarchiadau i Dewi a Jess, Llysgenhadon Efydd Ysgol Bro Pedr 2016-2017 ar dderbyn gwobrau yn diolch iddynt am eu gwaith yn ystod y flwyddyn



Llongyfarchiadau mawr i Ifan Meredith a Cerys Angharad Jones a fu'n perfformio yng nghyngerdd Prom Ysgolion Ceredigion. Roedd Ifan yn aelod o'r gerddorfa a chôr blwyddyn 6 a Cerys yn rhan o'r ensemble telynau. Cafwyd cyngerdd gwych a'r côr yn cael cyfle i rannu llwyfan gyda Shan Cothi a Gwawr Edwards. Diolch i holl athrawon teithiol y Sir am eu gwaith.





Bu Amy Lloyd, disgybl yn Ysgol Bro Pedr, yn cynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth Dressage dan 14 oed yn Keysoe, Bedford yn ddiweddar. Mae Amy yn aelod o BYRDS.



Beca Roberts, o Ysgol Bro Pedr a ddaeth yn drydydd ym mhencampwriaeth digwyddiadau cyfunol dros Gymru yn Abertawe tra'n cynrychioli Dyfed mewn athletau. Bu'n cymryd rhan mewn pump cystadleuaeth wahanol - sef naid uchel, naid hir, taflu pwysau, ras clwydi a'r 800 metr. Daeth tîm Dyfed yn ail yn gyfan gbwbl. Yn ystod penwythnos Gemau Cymru yng Nghaerdydd bu Beca'n cymryd rhan dros Ddyfed yn y naid hir gan ddod yn bedwerydd dros Gymru. Daeth tîm Dyfed i'r brig a dod yn gyntaf.



Nathan Jones, disgybl yn Ysgol Bro Pedr sydd wedi ennill yr ail wobwr mewn cystadleuaeth Karate yn Wrecsam yng nghategori Kata Addysg Arbennig. Mae Nathan hefyd wedi ennill ei Wregus Du.



Sion Evans, disgybl yn Ysgol Bro Pedr, sydd wedi ennill Pencampwriaeth Prydain yn y Ras Enduro, sef cyfres o gystadlaethau beic modur ar draws Prydain gyfan. Mae Sion yn rhan o dîm Cymru.




Kacper Krawcewicz, disgybl yn Ysgol Bro Pedr, yn ennill y Fedal Aur yn taflu pwysau yng nghystadleuaeth Athletau Dyfed yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar.

Pentrebach

Ar wellhad

Braf yw deall bod Mair Jones, Pant-têg yn well ar ôl derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.



Prif Swyddogion Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan, 2017-2018
O'r chwith - Manon Williams, Ffion Evans, Dirprwyon; Alpha Evans, Prif Ferch; Hari Butten, Prif Fachgen; Robert Jenkins a Twm Ebbsworth, Dirprwyon.



Dros benwythnos Gŵyl Banc Awst bu rhai o ddisgyblion Ysgol Bro Pedr Iau yn cystadlu mewn gwahanol gystadlaethau yn enw'r ysgol. Daeth llwyddiant i'r Parti Llefaru a gafodd gydradd 2il.

Pencarreg



Prif bencampwr yr adran geffylau yn Sioe Tregaron oedd poni dan gyfrwy, eiddo Annie Thomas a Rachel Thomas o Bencarreg.

Mabolgampau Cwrtnewydd



Yn ystod mis Gorffennaf cynhaliwyd mabolgampau Cwrtnewydd yng nghae'r ysgol. Roedd y tywydd yn braf a daeth lluo o blant, rhieni, mamgus a thadus i fwynhawn prynhawn o gystadlu brwd.

Croesawyd y llywyddion eleni sef Lyn ac Eileen Rees, Awel y Rhos, Cwrtnewydd gan eu mherch Mrs Wendy Davies, Cadeiryddes y Pwyllgor Mabolgampau. Cawsom glywed am eu teulu ac am eu cysylltiadau agos â'r ysgol a'r mabolgampau a oedd yn mynd nol dros deugain mlynedd. Diolchwyd iddynt am eu rhodd hael iawn.

Hoffwn ddiolch i bawb am eu help a'u cefnogaeth am wneud y diwrnod yn llwyddiant eleni eto.

Dathliadau Addysg yn Ysgol Cwrtnewydd



Diolchwn yn ddiffuant i bob un a gyfrannodd at ddathliadau Ysgol Cwrtnewydd ar yr 16eg o Orffennaf. Braf oedd gweld cynifer o gyn-ddisgyblion yn cymryd rhan a phob degawd yn perfformio yn raenus iawn yn ystod y prynhawn. Roedd yr ysgol dan ei sang a phobol ymhobman a braf oedd gweld cefnogaeth yr ardal. Mi roedd yn brynhawn i'w drysori a diolch yn fawr i chi. Dymuna'r staff, disgyblion a rhieni ddiolch i bawb yn y gymuned am eu haelioni a'u cyfeillgarwch. Diolch i bawb am bob ymdrech.



Ymddeoliad – Dymuniadau gorau i Mrs Gwyneth Davies sydd yn ymddeol fel athrawes yn Ysgol Cwrtnewydd a diolch iddi am ei gwasanaeth ffyddlon i ysgolion yr ardal ar hyd y blynyddoedd. Dymunwn ymddeoliad hapus iddi, gan wybod y bydd yn galw i'n gweld yn gyson yn Ysgol Dyffryn Cledlyn yn y dyfodol agos. Gwnewch y gorau o bob cyfle, Miss Gwyneth!

Dymuna Mrs Gwyneth Davies ddiolch am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad ac i bawb a gyfrannodd tuag at y dysteb. Diolch o waelod calon i chi.

Dymuniadau gorau hefyd i Mrs Nerys Vobe sydd wedi derbyn swydd athrawes yn Ysgol Aberporth. Diolch am bob cyfraniad a phob lwc i'r dyfodol.

Sioeau Lleol – Braf oedd gweld cynifer o ddisgyblion yn cystadlu yn

sioeau Cwmsychpant a Gorsgoch yn ystod yr haf. Ymdrech arbennig! Da iawn chi – a llongyfarchiadau i'r staff a fu'n llwyddiannus hefyd. Ardderchog!



Cyfrannwyd £3,792.66 ar ran y tair ysgol at waith Ambiwlans Awyr Cymru trwy gynnal Calan Mai a Chyngerdd Pigion Pasg yn Ysgol Cwrtnewydd. Penderfynodd Cyngor Ysgol y tair ysgol gefnogi'r elusen ar y cyd yn ystod y flwyddyn. Swm anferth o arian. Diolch i bawb!

Dymuniadau gorau i Luned Jones sydd yn symud i Fro Pedr eleni. Diolch i ti am bob cyfraniad ac arweiniad a phob hwyl i ti!

Diolch i bawb am bob arwydd o gefnogaeth i Ysgol Cwrtnewydd ar hyd y blynyddoedd. Gwerthfawrogn hyn yn fawr iawn. Diolch hefyd i'r rhieni, llywodraethwyr, cyfeillion yr ysgol, staff ac yn bennaf oll i'n disgyblion. Dymuniadau gorau i bawb yn Ysgol Dyffryn Cledlyn.

Sioe Frenhinol



Daeth llwyddiant i Paul Williams Clyncoch gyda'i ddofednod yn y Sioe Frenhinol ac hefyd i Huw Evans, Alltgoch a Gareth Evans, Parc y Rhos gyda'u defaid Llanwenog. Da iawn chi i gyd.

Paul Williams gyda'i enillydd, Iâr Black Minorca.

Eisteddfod Genedlaethol

Llongyfarchiadau i Carys Griffiths-Jones, 2 Fronddu ar ddod yn 3ydd yn yr Unawd Mezzo-Soprano yn Eisteddfod Genedlaethol Môn ganol mis Awst. Hefyd i'w chwaer Heiddwen Tomos, Dôl-mebyd, Pencarreg ar ennill y Fedal Ddrama yn yr un Eisteddfod. Teulu talentog yn wir. Hefyd, i Huw Evans, Alltgoch am ennill y gystadleuaeth am 5 o erthyglau gwahanol eu maes a'u naws ar gyfer papur bro. Da iawn chi gyd.

Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Anne Evenden, Gwalia ben-blwydd arbennig yn ystod mis Awst. Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu.

Hefyd, dathlodd Gareth Lloyd, Ucheldir ben-blwydd arbennig yn ystod mis Awst.

Llongyfarchiadau

Mae llwyddiant wedi dod i deulu Williams Clyncoch yn ystod yr haf wrth iddynt ennill gwobr 'Masterbreed Holstein UK' ac ennill rownd Cymru. Yn ystod mis Awst bu prynhawn agored yno gyda nifer fawr yn dod i weld y fuches 'Walliswood' ar Fferm Clyncoch. Llongyfarchiadau mawr. Fe fydd y fuches nawr yn cael ei beirniadu ar lefel Brydeinig ac fe glywn maes o law am y canlyniad hwnnw.

Cyrddau Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn nos Lun, Hydref 2il am 7.00y.h. gyda'r Parch Eirian Wyn Lewis, Mynachlog ddu yn pregethu ac yna Capel Seion nos Iau, Hydref 5ed am 7.00y.h. gyda'r Parch Dilwyn Jones, Aberaeron yn gwasanaethu.

Gorsgoch

Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog 2017

Cynhaliwyd 37fed Sioe Amaethyddol, Cynnyrch, Ceffylau a Hen Beiriannau Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog ar gaeau Glwydwern, Llanwnnen, trwy garedigrwydd Elfyn a Sharon Morgans ar ddydd Sadwrn, 19eg o Awst. Prif elusen y sioe eleni oedd Beiciau Gwaed Cymru.

Ynghyd â'r cystadlaethau yn y babell ac ar y cae, cafwyd arddangosfa sgiliau cŵn, coetio, mabolgampau i blant, cynnyrch alpaca gan 'Bird Farm Alpacas', Arts for Wellbeing, paentio wynebâu ac ocsiwn lwyddiannus iawn yng ngofal Eifion Morgans. Yna, cafwyd chwip o noson dda gyda'r 'Welsh Whisperer', castell neidio a tharw troelli. Da iawn i Richard Pantdefaid am ddofi'r tarw!

Er mawr foddhad i aelodau'r pwyllgor a chefnogwyr y sioe, cafwyd ysbeidiau heulog a sioe lwyddiannus iawn o ran niferoedd a safon y cystadlu. Cyflwynwyd y gwobrau gan y Llywyddion, Mr a Mrs Paul Jones, Tŷ Newydd, Maesycrugiau, i'r canlynol:



CEFFYLAU: Ceffylau mewn llaw – Pencampwr – Dai Evans, Clogfryn, Aberaeron (Trehewyd Gwenfron).

Is-bencampwr – Evan Jones, Cae Glas, Cwrtnewydd (Parc y Bedw Diamond); **Marchogaeth – Pencampwr** – Tyler Hoyland, Cwm Tawel, Bangor Teifi (Friarly Grojus Porjus). **Is-bencampwr** – Rhiannon Evans, Bro Gernos, Coedybryn (Beros St. George); **Hynodion y Ceffylau** – Charlotte Clark, The Old Mill, Talgarreg; **Pencampwr yr adran geffylau, ac yn derbyn cwpan Hang-On yn roddedig er cof am Tim a Dorothy Thomas, Ffynon Rhys** – Dai Evans, Clogfryn, Aberaeron gyda Trehewyd Gwenfron

DEFAID: Defaid Llanwenog – Pencampwr – Huw Evans, Alltgoch (hwrdd). **Is-bencampwr** – Gareth a Wendy Evans, Parcyrrhos (dafad). **Gwobr Cymdeithas Defaid Llanwenog** – Huw Evans, Alltgoch (hwrdd). **Defaid Speckled – Pencampwr** – Jones, Blaenblodau (dafad). **Is-bencampwr** – Teulu Morgans, Glwydwern. **Defaid Continental – Pencampwr** – Jones, Blaenblodau (dafad). **Is-bencampwr** – Huw Evans, Alltgoch (hwrdd). **Unrhyw frîd "Lowland" arall – Pencampwr ac Is-bencampwr** – Teulu Morgans, Glwydwern (hwrdd Suffolk a dafad groes). **Unrhyw frîd mynyddig arall – Pencampwr** – Price, Gelliwrol, Cwmann. **Is-bencampwr** – Crimes, Gafryw, Mydroilyn. **Oen i'r cigydd – Pencampwr ac Is-bencampwr** – Owain Jones, Blaenhirbant, Cwmsychpant. **Pencampwr y Pencampwyr yr adran ddefaid, ac yn ennill cwpan her Wyn Morgans, Glwydwern** – Huw Evans, Alltgoch. **Arddangosydd gorau** – Ifan Evans, Dolgerdd, Talgarreg. **Barnu Wyn Tew C.Ff.I** – Beca Jenkins, Hafan y Cwm, Cwmsychpant.

HEN BEIRIANNAU: Pencampwr, ac yn ennill cwpan her Jim Evans, Fronwen – Geraint Rees, Maes y Celyn, Llanllwni.

GWARTHEG BIFF: Pencampwr – Jones a Davies, Penhill, Penrhiwllan (buwch gyda llo benyw). **Is-bencampwr** – Morgans, Glwydwern, Llanwnnen (buwch gyda llo gwryw).

GWARTHEG GODRO: Pencampwr – Andrew Davies, Abertegan, Brynteg (buwch mewn llaeth). **Is-bencampwr** – Teulu Williams, Clynoch, Cwrtnewydd (treisiad mewn llaeth). **Enillydd y fuwch neu dreisiad odro orau o fuches ddi-linach, ac yn derbyn Cwpan Her Ffynnonrhys** – Cennydd Jones, Rhydowen, Pontsian.



– Elan Jenkins, Ceulan, Maestir; **Blwyddyn 2 neu iau** – Aron Jac, Gafryw; **Ysgol â'r marciau uchaf yn yr adran arlunio, ac yn ennill tarian her Cyngor Cymuned Llanwenog** – Ysgol Llanwenog; **Cwpan Her Blaencathal, am focs o gynnyrch gardd** – Emyr Jones, Awelon, Drefach; **Pencampwr y babell, ac yn ennill cwpan her Malcolm Fuller** – Margaret Jones, Cae Glas, Cwrtnewydd.

Hoffai pwyllgor y sioe ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl i'r sioe y flwyddyn nesaf ar ddydd Sadwrn 18fed o Awst 2018.

Lluniau gan Sophie Mai Jones

Priodi

Ar Sadwrn cyntaf mis Medi yng Nghapel Beulah ger Castell Newydd Emlyn priododd Gethin Hatcher, Cefnhafod a Sara Davies, Trefaes Fawr, Beulah. Llongyfarchiadau mawr i chi a phob dymuniad da i chi yn eich bywyd priodasol yn eich cartref ym Mhenllain.

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

**Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yb - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau**

Gwasanaethau Coed Llamed



**Gwêl-y-Coed, Cwmann
Llamed, SA48 8EL
01570 422819**

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.



Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewiss.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



**COMPASS
OFFICE
SUPPLIES**

**Am eich holl
ddeunydd swyddfa**

**Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llamed, Heol Tregaron,
Llamed.**

**☎ 01570 422955
☎ 01570 422232**

CANOLFAN ADDURNO

**AA
A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allweddi a
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
**3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156**

Drefach a Llanwenog

Eglwys Santes Gwenog

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn yr Eglwys dros fisoedd yr Haf. Bu Cerddorfa Ieuenticid Speelschare o Wlad Belg yn rhoi cyngerdd safonol iawn ddechrau mis Gorffennaf. Diolch i Hazel Thomas am gysylltu â'r Arweinydd am waith Joseph Reubens yn Eglwys Llanwenog, a'i ddenu yma. Hyfryd oedd clywed y gerddorfa yn chwarae 'Hen Wlad Fy Nhadau' i ddiweddu'r noson, a hwythau'n cael mwynhad o glywed canu'r gynulleidfa.

Yn ystod mis Awst, darparwyd llyfryn yn rhoi hanes yr Eglwys i drigolion Plwyf Llanwenog. Gwahoddwyd pawb i ymweld ag arddangosfa am waith a bywyd yr Eglwys yn y gobaith o ddenu rhagor o addolwyr i oedfaon y Sul. Diolch i Lynne a Keith Goodall am wireddu'r digwyddiad, i Geraint Davies am ofalu am y dechnoleg drydanol, ac i bawb a fu'n gysylltiedig â'r paratodau.

Yn rhan o waith cymunedol ar gyfer eu harholiad Bagloriaeth Gymreig, bu Osian Davies, Ben Lewis a'i ffrind Daniel Evans yn torri mynwent yr Eglwys. Gwerthfawrogi eich gwaith caled, fechgyn a diolch yn fawr i chi.

Tra bu'r Parchedig Suzy Bale ar ei gwyliau, croesawyd y Parch Bill Fillery a'r Parch Wil Strange i arwain gwasanaethau; diolch iddynt am eu parodrwydd.

Llongyfarchiadau i'r ysgolheigion a'r dysgyblion a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â theuluoedd Gellideg a Llyseri ar golli perthnasau yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Dymunwn adferiad llwyr a buan i bawb sy'n anhwylyd; da yw clywed bod Mrs Bronwen Jones nôl yn Hafan Deg wedi cyfnod yn yr ysbyty.

Clwb Cant Gorffennaf: 1. Sian Jones, Awelon; 2. Emyr Jones, Awelon; 3. Eirian Griffiths.

Sefydliad y Merched

Bu'r aelodau'n mwynhau cymdeithasu dros yr Haf. Buont yn ymweld â Gwinllan Llaethliw ac hefyd yn gweld Sioe Gerdd yn Aberystwyth, ac wrth gwrs cafwyd pryd o fwyd ar ôl y ddau achlysur! Aethant hefyd i gerdded o Lanerchaeron i Aberaeron a nôl ... ond nid heb gael sgloodion a hufen iâ ar lan y môr!

Ym mis Hydref fe fydd SyM Llanwenog yn dathlu 70 mlynedd. Ar y dechrau yn 1947 roedd tua 90 o aelodau, gan gynnwys llawer i fam a'i merch. Diddorol yw darllen llyfr y Trysorydd gan fod yr aelodau i gyd wedi eu rhestru, ac enwau ffermydd a chartrefi'r ardal lle roedden nhw'n byw.

Cynhelir prynhawn o ddathlu yn

Eglwys Llanwenog ar Hydref 14eg am 2.00 o'r gloch. Fe fydd Côr Lleisiau'r Werin yn canu, o dan arweiniad Mrs Elonwy Davies ac yna fe fydd te i bawb.

Rydym yn awyddus i groesawu cyn aelodau i ymuno â ni - edrychwn ymlaen at eich gweld!

Priodas Arian

Yn ystod yr haf dathlodd Tony a Mair Hatcher, Abernant eu Priodas Arian. Llongyfarchiadau mawr a iechyd da am flynyddoedd eto.

Pen-blwyddi arbennig

Dathlodd Daff Davies, Abertegan ben-blwyddi arbennig ddechrau mis Awst. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu.

Hefyd, bydd Eryl Price, Esgereinion yn dathlu carreg filltir bwysig yn ystod mis Medi.

Y Gymdeithas Hŷn

Bu'r aelodau am ddau drip yn ystod yr Haf, i Harlech ym mis Gorffennaf, ac yna i Landrindod ym mis Awst.

Mae bron yn draddodiad erbyn hyn ein bod yn aros am 'baned ym Machynlleth wrth fynd i'r cyfeiriad yna, a chael cyfle i fynd o gwmpas stondinau'r farchnad. Ymlaen wedyn i Harlech, a chael cyfle i weld y castell ac hamddena a chael clonc yn yr heulwen braf. Nôl i Aberystwyth am awyr iach y môr, cyn cychwyn am adre a chael swper ardderchog yn Fferm Ffantasi, Nebo. Dymunodd Dilwen George yn dda i Jean Jones, Dorlan, sydd erbyn hyn wedi symud i fyw yng Nghastell Nedd. Diolch i Jane Jones, Pwllbulwg am drefnu diwrnod ardderchog.

Diwrnod braidd yn gymylog, ond sych oedd hi ym mis Awst. Aros yn Llanymddyfri am goffi cyn mynd ymlaen am Landrindod. Ymweld â'r Ganolfan Seiclo Genedlaethol yn y fan honno, a chael ein tywys o gwmpas gan dri o'r gwirfoddolwyr. Caed hanes beiciau o'r dechrau at y presennol a gweld cannoedd ohonynt o bob maint a siap. Y bone-shakers a'r Penny farthings, beiciau o'r oes Edwardaidd i fenywod a beiciau i'r anabl. Wedyn y beiciau tair olwyn, y Choppers a'r beiciau mynydd yn dod â ni at yr oes bresennol, ynghyd â'r diwedddara mewn beiciau rasio.

Wedi sbel fach am ginio, aed ymlaen i Benybont, rhyw dair neu bedair milltir o Landrindod, i'r Thomas Shop. Hen adeilad yw hwn a fu'n siop groser a deunyddiau, ac hanner dwsin o deilwriaid yn gweithio yno. Wedi hynny, datblygwyd gwasanaeth golchi yno ar gyfer gwestai Llandrindod, a'r perchennog yn gwneud ffortiwn. Roedd y lle wedi cau, ond y defnyddiau a'r dillad wedi aros yno, a'r perchnogion presennol yn agor



Geraint a Caroline Davies, Llys-deri, Llanwenog gyda'u car rali gorau, y Lancia Stratos, yn Nhaith Ceir Clasuron a Ralio Cylch Meithrin Felinfach ddechrau'r haf. Yn y llun hefyd gwelir Heulwen Jones [Arweinydd y Cylch] a Cari, Lili-wen a Guto [rhai o blant yr ysgol feithrin].

y lle fel amgueddfa fach. Mae caffi hyfryd lle bu'r golchdy, a chafwyd te a sgons a jam cartre yno - arbennig!

Fe deithion ni am adre ar hyd ffordd arall ac aros yn Llety Parc, Llanbadarn am swper blasus. Cyfeiriodd Dilwen George at nifer o'r aelodau oedd yn methu â bod ar y trip oherwydd anhwylder, a dymunodd wellhad buan iddynt i gyd.

Bydd y daith olaf am eleni ddydd Mercher, Medi'r 13eg, yng ngofal Ann Walters, (Brynhogfaen), ac yn mynd i ardal Trefdraeth, Sir Benfro. Enwau i Yvonne fel arfer, 480590.

C.Ff.I. Llanwenog



C.Ff.I Llanwenog yn ennill Chwaraeon y Sir yn ddiweddar.

Yng nghanol bwrlwm a joio'r Sioe Frenhinol yn Llanellwedd fe fuodd y Clwb yn brysur dros ben yn cystadlu'n frwd yng nghystadlaethau'r ffermwyr ifainc. Roedd hi'n wythnos lwyddianus iawn gyda'r clwb yn dod i'r brig yn y "Lip Sych Battle". Llongyfarchiadau hefyd i Steffan Jenkins a ddaeth yn 2il yn y cneifo a Lois Jones a Hafwen Davies yn 5ed yn y gystadleuaeth gwisgo aelod hŷn.

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y clwb ddechrau mis Awst i ddewis swyddogion newydd am y flwyddyn 2017-18.

Diolch i'r aelodau a fuodd yn stiwardio, yn cynnal mabolgampau a phaentio wynebau yn Sioe Gorsgoch a gynhaliwyd ar gaeau Glwydwrn ar 19eg o fis Awst. Llongyfarchiadau i ddwy o aelodau'r clwb a fu'n llwyddiannus mewn adrannau gwahanol, sef Meryl Evans o dan 18 ac Elin Jones yn adran y CFfI. Diwrnod llwyddianus dros ben.

Mae'r clwb eisoes wedi dechrau cwrdd eto ddechrau mis Medi gyda noson yng nghwmni'r arweinyddion. Edrychwn ymlaen at flwyddyn brysur a llwyddianus eleni eto.

Os oes gennych ddiddordeb ymuno â'r clwb neu am ragor o wybodaeth ewch i'r wefan:


www.cffillanwenog.org.uk

Drefach a Llanwenog

Dathlu 150 mlynedd o Addysg.

Braf oedd gweld cynifer o gyfeillion a ffrindiau'r Ysgol yn bresennol yn cefnogi'r achlysur ar y 15fed o Orffennaf. Diolch i bawb a gyfrannodd neu a gefnogodd neu gynorthwyo mewn unrhyw ffordd.

Mi roedd yn ddiwrnod llwyddiannus arall yn hanes yr Ysgol, yn llawn bwrwm, canu, rhannu atgofion, clonc a



chacen ac ocsiwn. Bu'r disgyblion, CFfl Llanwenog a'r band yn perfformio drwy'r prynhawn. Arbennig! Llwyddwyd codi £2,000 a rhannwyd yr arian rhwng Cylch Meithrin Gwenog / Cledlyn ac Elusen Parkinson. Diolch i chi gyd.

Ymdeoliad – Dymunwn ddiolch a danfon ein dymuniadau gorau at Miss Eleri Davies neu Eleri Cwc i bawb, a Mrs Enfys Morgan wrth iddynt ymddeol ddiwedd y tymor. Mae gwasanaeth y ddwy wedi bod yn amhrisiadwy i'r Ysgol ac mi fyddwn yn gweld eu heisiau yn fawr iawn. Diolch o waelod calon i chi'ch dwy am bopeth yr ydych wedi ei gyflawni dros ddisgyblion a staff yr Ysgol. Mwynhewch eich bywydau!

Dymuna Mrs Eleri Davies a Mrs Enfys Morgan ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd iddynt ar ddiwedd y tymor ac hefyd i bob un a gyfrannodd yn hael tuag at dysteb y ddwy. Diolch o waelod calon i bawb.

Dymuniadau gorau hefyd i Mrs Nerys Vobe sydd wedi derbyn swydd athrawes yn Ysgol Aberporth. Diolch am bob cyfraniad a phob lwc i'r dyfodol!

Sioeau lleol - Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn Sioe Cwmsychpant a Sioe Gorsgoch yn ddiweddar a da iawn chi, y rhai a lwyddodd i ennill gwobr ac i bawb am ymdrech. Ysgol Llanwenog oedd yn fuddugol ac ennill y darian



i'r ysgol leol â'r pwyntiau uchaf. Felly, llongyfarchiadau gwresog i chi gyd am eich ymdrechion. Da iawn chi, y rhai a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Llambod hefyd.

Cyfrannwyd £3,792.66 ar ran y tair ysgol at waith Ambiwylans Awyr Cymru trwy gynnal prynhawn coffi yn Ysgol Llanwenog. Penderfynodd Cyngor Ysgol y tair ysgol gefnogi'r elusen ar y cyd yn ystod y flwyddyn.

Llongyfarchiadau oddi wrth ddisgyblion Llanwenog hefyd i Mrs Elonwy Davies am yr anrhyddedd o gael ei hurddo yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn. Gwych!

Diolch i bawb am bob arwydd o gefnogaeth i Ysgol Llanwenog ar hyd y blynyddoedd. Gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn. Diolch hefyd i'r rhieni, llywodraethwyr, cyfeillion yr ysgol, staff ac yn bennaf oll i'n disgyblion. Dymuniadau gorau i bawb yn Ysgol Dyffryn Cledlyn

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofgofofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.
Ac yn golchi *duvets*.



Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com

graham@tynici.com



Dawns Emporium Rhoddion Cymraeg a Phersonol

07818 020907
Drefach, SA40 9SX

 dawnsemporium

www.dawnswelshgifts.co.uk

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambod
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ffair Ram

Ar Gae Pentref Cwmann

9fed Medi 2017

Llywyddion: Mr & Mrs Cyril Davies, Brynteg.

Sioe, Arddangosfa Adar Ysglyfaethus, Bar,
Bwyd, Hufen Iâ ac atyniadau eraill.



**Arddangosfa Hen Beiriannau
a Thait Tractorau**

Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y
bore. Beirmiadau yn dechrau am 12 o'r gloch.

Ysgrifenyddion:

Danny Davies 423692, Wyn Jones 422511

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Tai Bwyta / Siopau

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: **01570 422401**
E-bost: carol@ejc.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Edrych y tu hwnt i'r Sat Nav

"Estyn wnes am y Sat Nav" oedd un o'r llinellau cofiadwy yng nghystadlaeth yr englyn yn Eisteddfod Pantyfedwen Llanbed eleni.

Yn eironig, colli ei ffordd braidd wnaeth yr englyn ar y diwedd ond mae'r un llinell yna'n cynrychioli arfer miliynau ar filiynau o bobol.

A dweud y gwir, mae'n ddarlun o'r ffordd yr ydyn ni i gyd bellach yn estyn am y dechnoleg bob cyfle posib, heb hyd yn oed ystyried yn aml beth ydan ni'n ei wneud.

Mae'r Sat Nav ei hun hefyd yn rhyw fath o symbol o'r ffordd y mae'r byd yn teithio – mae'n ein helpu ni i gyrraedd llefydd heb i ni wybod ble'r ydyn ni'n mynd.

Mae Sat Nav yn grêt yn y pethau bach; pan fyddwch chi mewn dinas fawr ac yn chwilio am gyfeiriad penodol, nad oes gyda chi gliw ble mae o.

Dydi'r teclyn ddim cystal i weld y darlun mawr. Dim ond mymryn o ffordd sydd ar y sgrin fach sydd yn y golwg; does gyda chi ddim syniad am yr hyn sydd y tu hwnt i hynny na ffordd o roi barn a ydych chi'n mynd y ffordd orau.

Nid y ffordd fyrra' ydi'r orau bob tro; mae yna ffyrdd mwy dymunol, harddach; mae yna ffyrdd sy'n gwneud mwy o sens mewn tywydd gwael a rhai eraill sy'n well mewn hindda.

A dyna ni'n ôl ym myd llenyddiaeth a'r newyddion ym mis Awst fod llawer llai o bobol ifanc yn astudio llenyddiaeth, Cymraeg a Saesneg. Rhan o'r rheswm am hynny ydi fod y Llywodraeth yn rhoi llai o werth ar lwyddiant mewn TGAU yn y maes.

Wrth gwrs ei bod hi'n bwysig cael gwybodaeth ddefnyddiol, ymarferol, i'n helpu ni i symud ymlaen – Sat Navs y byd addysgol. Ond mae angen mwy na hynny er mwyn mwynhau a gwerthfawrogi taith ac mae angen codi golygon tu hwnt i'r sgrin fach o'ch blaen.

Fel mae'n digwydd, roedd Eisteddfod Llanbed eleni'n ffyniannus iawn o ran ei chynnyrch llenyddol a phob un o brif enillwyr y gwobrau agored â rhyw gysylltiad ag ardal Clonc – o'r hogyn lleol, Ioan Wyn Evans, yn cipio'r Fedal am ddau ddarn cry' o ryddiaith, i Islwyn Edwards, a fu'n byw yn Llanbed, yn cipio'i bedwaredd coron a Bardd y Gadair, Nia Powell, yn aros am dro gyda'i merch yng Nghwm-ann.

Nid dilyn Sat Nav meddyliol oedd wedi eu helpu nhw i ennill eu gwobrau, ond edrych o'u cwmpas, sylwi, a gwerthfawrogi. A gwrando hefyd, nid ar lais undonog rhyw ddynes beirianyddol mewn bocs, ond gwrando ar siarad pobol.

A dyna'n fwy na dim ydi crefft fawr seren lenyddol newydd yr ardal, Heiddwen Tomos, a enillodd y Fedal Ddrama yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Dydi'r ddrama ddim wedi ei pherfformio eto ond does dim rhaid ei gweld hi i werthfawrogi sgil y sgriflenwraig.

Ychydig wythnosau cyn yr Eisteddfod ym Môn, roedd nofel Heiddwen, Dŵr yn yr Afon, wedi ei chyhoeddi, a honno wedi cael canmoliaeth fawr yn un o brif gystadlaethau Eisteddfod Genedlaethol y flwyddyn gynt. Hawdd gweld pam.

Os ydych chi eisiau blas o iaith – a bywyd – yr ardaloedd yma yn nechrau'r unfed ganrif ar hugain, mae o i'w gael yn y nofel yma sy'n siarad yn blaen – yn blaen iawn ar adegau – am fywyd cefn gwlad. A thrwy eu tafodiaith, mae yna lond lle o gymeriadau'n dod yn fyw.

Peth anodd ydi sgrifennu mewn tafodiaith. Mae'n fwy na thaflu ambell air lliwgar i mewn bob hyn a hyn. Mae angen cael yr union rhythm; nid y geiriau unigol, ond y geiriau yn eu trefn naturiol ac un llithriad yn ddigon i chwalu'r effaith. Mae Heiddwen Tomos yn llwyddo.

Dydi'r darlun o gymdeithas cefn gwlad ddim yn un cyfforddus o bell ffordd; mae'n siŵr fod yna bethau y byddai'n well gan rai petaen nhw heb eu dweud. Dyna pam ei bod hi'n ofnadwy o bwysig eu dweud nhw.

Nid nofel Sat Nav ydi hon. Mae angen mwy na pheiriant i adnabod pobol.



Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru

Nid yw'r golygydd o
reidrydd yn cytuno ag
unrhyw farn
yn y papur hwn.



Braf yw bod nôl yng Nghegin Clonc ar ôl hoi'r Haf. Rhaid nawr edrych 'mlaen at groesawu gwledd o gynhwysion cyffrous i'r gegin, wedi mwynhau prydau al fresco, megis barbaciw a phicnic.

Felly'r mis yma, beth am wahodd y teulu neu griw o ffrindiau draw am bryd o fwyd 3 chwrs o flas yr Hydref.

Mae modd paratoi rhan helaeth o'r pryd ymlaen llaw, hyn yn llacio'r prysurdeb munud ola'.

Y cwrs cyntaf yn manteisio ar y cyflenwad madarch ar hyn o bryd, cig eidon yw'r ail gwrs, a phwddin plwms i orffen.

Mwynhewch fis Medi,

O'r Gegin
Gareth

Madarch mis Medi

4 Madarchen fawr wastad

100 g caws glas

25 g cnau Ffrengig (walnuts) wedi'u darnio

Ychydig teim a menyn

Dull

1. Trowch y ffwrn i 200 C, Fan 180, nwy 6
2. Cymysgwch y caws, cnau, teim a'r menyn, a defnyddiwch hwn i lenwi'r madarch, wedi eu rhoi ar dun pobi.
3. Coginiwch am 10 munud. Gosodwch ar blât ar wely o roced.

Stiw cig eidon a myffin

500 g cig eidon (braising beef) wedi darnio

2 llwy fwrdd o fflŵr plaen

1 winwsyn wedi ei dorri'n fân

½ pint gwin coch

4 moron a 2 panas wedi'u darnio

2 llwy fwrdd past tomato

450 ml stoc llysiau

halen a phupur

Topin Myffin

225 g blawd plaen

3 llwy de powdwr codi

¼ pint o laeth

140 g caws wedi gratio

2 llwy fwrdd olew

Dull

1. Trowch y cig yn y fflŵr, a'i ffrio mewn padell ag olew nes ei droi'n frown. Codwch i blât, a rhowch y llysiau yn y badell, a'u ffrio am 10 munud. Nôl â'r cig i'r badell, ac ychwanegwch halen a phupur, y gwin, stoc a'r past tomato. Dewch â'r cyfan i'r berw, ac yna ei roi yn y ffwrn am awr a thri chwarter. (1¼) ar wres 150 C
2. I greu'r myffin: Cymysgwch y cynhwysion, gan ddefnyddio hanner y caws, a gwasgarwch dros y stiŵ, ac yna weddill y caws. Pobwch eto am 15 munud, a gweinwch â llysiau gwyrdd.

Pei Plwms

500 g plwms wedi eu torri'n fân

pinsied o sinamwn

1 ŵy

140 g siwgwr

1 haenen o grwst pwff

Dull

1. Trowch y ffwrn i 220 C, Fan 200, nwy 7. Cymysgwch y plwms, y siwgwr a'r sbeis.
2. Gosodwch yr haenen does ar dun pobi, a rhowch y llenwad ffrwyth dros un hanner.
3. Brwsiwch o amgylch y toes ag ŵy, a phlygwch y toes nôl dros y ffrwyth, a'i selio'n dda. Gwnewch doriadau hir ar yr wyneb i greu effaith 'ysgol'! Pobwch am 30 munud, yna cawod o siwgwr eisin, a mwynhewch â chwstard.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Llanwnnen

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Guto Jones, Neuadd Fawr ar ennill Ysgoloriaeth Gwili Jones yn y Sioe Frenhinol.

Eisteddfod Genedlaethol

Llongyfarchiadau i Aled Wyn Thomas, 1 Sycamore Terrace, ar ddod yn 2il yn yr Unawd Tenor dros 25oed yn Eisteddfod Genedlaethol Môn ganol mis Awst. Da iawn ti Aled.

Cydymdeimlo

Meddylw'n am Gwilym a Gwen Davies, Llysaeron sydd wedi colli chwaer a chwaer yng nghyfraith, sef Augusta Davies o Felinfach yn ystod y mis. Hefyd, cofiwn am deuluoedd Pantyderi a Glas-y-dorlan yn yr un brofedigaeth. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyrâf â chwi i gyd.

Hefyd danfonwn ein cydymdeimlad llwyrâf at deulu'r diweddar Mrs Eirwen Havard Davies, Taigwynion a fu farw yn Ysbyty Glangwili yn ystod mis Awst.

Priodas Dda

Llongyfarchiadau i Barry ac Elinor, Pantyderi ar achlysur eu priodas yn Eglwys Maestir, Llambled ar Sadwrn Gŵyl y Banc. Pob dymuniad da i chi i'r dyfodol.

Dathlu Addysg Ysgol Llanwnnen



Ar ran staff, Llywodraethwyr a disgyblion yr Ysgol, hoffem ddiolch i bawb a fu'n cefnogi'r achlysur wrth ddathlu Addysg yn Ysgol Llanwnnen ar 8fed o Orffennaf. Hyfryd oedd gweld cynifer o aelodau'r gymuned yn bresennol gan ymuno i weld hen luniau yn yr Ysgol, gwyltio'r disgyblion yn perfformio a rhannu atgofion a mwynhau clonc a chacen. Dymunwn hefyd ddiolch i bawb am bob arwydd o garedigrwydd yn ystod ein tymor olaf.



Sioeau lleol- Llongyfarchiadau i ddisgyblion a fu'n cystadlu yn sioe Cwmsychpant a Gorsgoch mewn gwahanol gystadlaethau yn ystod yr haf. Braf oedd gweld cymaint yn ymgeisio. Hyfryd oedd gweld rhai disgyblion yn cystadlu yn Eisteddfod leol Llambled hefyd. Da iawn chi!

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Heiddwen Tomos, rhiant a llywodraethwraig yn yr ysgol, am gyflawni camp a hanner yn yr Eisteddfod Genedlaethol trwy ennill y Fedal Ddrama. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol.

Llongyfarchiadau oddi wrth ddisgyblion Llanwnnen hefyd i Elonwy Davies am yr anrhydedd o gael ei hurddo yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn. Gwych!

Cyfrannwyd £3,792.66 ar ran y tair ysgol at waith Ambiwylans Awyr Cymru trwy gynnal taith nodedig yn Llanwnnen. Penderfynodd Cyngor Ysgol y tair ysgol gefnogi'r elusen ar y cyd yn ystod y flwyddyn.

Dymuniadau gorau i'r wyth disgybl sy'n symud i Fro Pedr a Bro Teifi eleni. Diolch i chi am eich cyfraniad a phob hwyl i chi!

Diolch i bawb am bob arwydd o gefnogaeth i Ysgol Llanwnnen ar hyd y blynyddoedd. Gwerthfawrogn hyn yn fawr iawn. Diolch hefyd i'r rhieni, llywodraethwyr, cyfeillion yr ysgol, staff ac yn bennaf oll i'n disgyblion. Dymuniadau gorau i bawb yn Ysgol Dyffryn Cledlyn.



Ysgoloriaeth Deithio Gwili Jones - Coleg Sir Gâr: Cyflwynwyd y wobwr eleni i Guto Tomos Jones, Neuadd Fawr, Llanwnnen. Yn cyflwyno'r ysgoloriaeth mae Mrs Gwili Jones a Llywydd y Sioe, Brian Jones. Gyda nhw mae Nigel Davies o Gwmni Gwili Jones, Helen Jones, gwraig y Llywydd a Barry Liles, Prifathro Coleg Sir Gâr



Mr Chris Watling yn derbyn rhodd gan swyddogion Capel y Groes ar ei ymadawiad â'r Tŷ Capel ar ôl bod yn ofalwr yno am bron i ddeng mlynedd ar hugain. Pob lwc iddo ef a'i wraig Pat yn eu cartref newydd yn Llambled.



Dyma lun o holl ddisgyblion y tair ysgol ar ddiwedd y tymor ar daith i Aberaeron.



Llongyfarchiadau

Dylan Thomas, Castell Du yn derbyn cwpan er cof am Ceinwen Jenkins, Tyllwyd gan Helen Morgan, Llywydd Sioe Llambled ar ôl iddo ennill cystadlaeth rock cakes gan ddynion!

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Haydn Richards, Lowtre yn well ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli ar ddiwedd mis Awst.

DIOLCH i bawb sydd wedi ymuno â Chlwb Clonc eleni. Rydym wedi cyrraedd **526** o aelodau. Cofiwch dyw hi ddim yn rhy hwyr i ymaelodi....
£5.00 y rhif.

Dyfarniad y Darllenydd

Ar ôl yr oedfa a gynhaliwyd yng Nghapel Annibynnol Rhydybont ym mis Gorffennaf i ddathlu pen-blwydd y Capel yn 300 mlwydd oed, roedd cyfle wedyn i brynu cyfrol am hanes y Capel gan J Stanley Evans sy'n 92 tudalen am £9.95. Roeddwn wrth fy modd yn bodio'r tudalennau ac yn edrych ar y casgliad o luniau hanesyddol a oedd yn y llyfr.

Mae cysylltiadau teuluol gennyf fi, fel nifer o ddarllenwyr Clonc, â Chapel Rhydybont. Mae beddau hen-famgu i fi, a oedd yn byw ym Meilibedw, ym mynwent Capel Rhydybont, dwy hen-fodryb a chofeb i hen-ewythr a fu farw yn 1917 ym mrwydr Passcheandaele ac a goffeir ar y gofologfn ym mhentref Drefach. Mae cof gyda fi hefyd am fynychu'r Gymanfa Bwnc yn y Capel hardd hwn, ynghyd ag aelodau eraill o Ysgol Sul Capel Annibynnol Bethel Drefach slawer dydd.

Mae dathlu 300 mlynedd yn gamp aruthrol, ac yn gyfnod hir i gynnal unrhyw weithgaredd yn barhaol a di-dor. Ceir hanes cefndir yr Achos Anghydfurfiol ar dudalennau agoriadol y gyfrol. Os nad ydych yn hoff o ddarllen am hen hanes sy'n mynd nôl i'r 15fed a'r 16eg ganrif – gallwch gamu'n syth i hanes sefydlu'r Capel yn Rhydybont ar dudalen 9. Gallwch ddod nôl at hen hanes y cefndir rywbryd eto. Dyna beth yw mantais llyfr – mae'n fwy parhaol a gallwch wneud defnydd hyblyg ohono yn ôl eich diddordeb a'ch chwaeth bersonol chi.

Roedd hi'n rhyfeddol meddwl bod rhif yr aelodaeth wedi codi i dros 250 o aelodau o fewn 50 mlynedd wedi sefydlu'r Achos yn Rhydybont yn 1717. Roedd hi'n ddiddorol deall mai'r Sgweier Herbert Evans, Plas y Dolau, roddodd y tir ar gyfer adeiladu'r Capel newydd, gan gynnwys mynwent fechan, yn 1778. Erbyn 1829 roedd Capel newydd wedi'i adeiladu ar yr un safle. Rwyf yn rhyfeddu at y llun a geir ar dudalen 10 ac 19 o'r Capel a godwyd yn y cyfnod hwnnw. Bythynnod bach dinod a chartrefi elfennol iawn oedd gan y mwyafrif o drigolion yr ardal yr adeg honno, ond mae'r ffaith eu bod wedi adeiladu Capel mor fawr ac urddasol, 188 o flynyddoedd yn ôl, yn cyfleu eu haberth a'u hymdrech i gael man addoli teilwng.

Codwyd y Capel mawr, urddasol presennol yn 1912, yna ehangwyd y fynwent ac adeiladwyd y Mans erbyn 1955. Ceir hanes yr holl weinidogion a fu'n bugeilio yng Nghapel Rhydybont o dudalen 14 i 47. Yn dilyn manylion manwl am y cyn-weinidogion ceir hanes arweinwyr/swyddogion y Capel yn ystod y 100 mlynedd olaf fwy neu lai. Mae'r cofnodi fan hyn yn hollbwysig, debygwn i, oherwydd dyma'r gweithwyr uniongyrchol yn y gorlan grefyddol. Mae enwau'r cartrefi sy'n dilyn yr enwau yn bwysig hefyd i gynnal y cof am yr hen enwau a fu'n weithredol yn hanes yr Annibynnwyr yn y cylchoedd hyn.

Mae diwyg y llyfr yn newid eto o dudalen 52 ymlaen, am ein bod yn ymwneud â chyfnod diweddarach yn hanes y Capel ac felly mae mwy o luniau lliwgar ar gael i fritho'r geiriau mewn print. Efallai mai fan hyn bydd rhai darllenwyr yn dechrau'r gyfrol hon am mai'r cyfnod 'o fewn cof' sy'n debygol o apelio atyn nhw. Popeth yn iawn – mae digon o wybodaeth ar gael o fan hyn ymlaen i fodloni rhai darllenwyr yn llwyr. Mae'r 'Pigion hanesyddol' sydd ar dudalen 82 at y diwedd yn rhoi digonedd o gefndir i nifer o ddarllenwyr prysur Clonc. Mae'r hanesyn am y Gymanfa yn 1797 a chofgologfn Nansi Jones yn ddifyr iawn.

Diolch yn fawr i weinidog ac aelodau presennol Capel Rhydybont am adrodd hanes eu gorffennol a'u presennol i ni. Credaf fod angen i fwy o gapeli ac eglwysi gyhoeddi llyfr neu bamffled yn amlinellu gymaint o'r cefndir hanesyddol ag sydd ar gael erbyn hyn. Mae'n ddyletswydd ar yr aelodau hyn i rannu eu cof a'u hanesion er mwyn trosglwyddo'r wybodaeth i'r genhedlaeth nesaf cyn iddi fod yn rhy hwyr. Diolch, Stanley Evans, am eich gwaith dyfal a graenus gan obeithio y daw llyfryn arall eto i barhau gyda hanes yr addoli yn Eglwys Annibynnol Rhydybont o 2017 ymlaen, yng ngeiriau Silyn Thomas:

Yn Rhydybont boed eto
ddrws agored, doed a ddelo.

Gillian Jones, Meysydd, Llanwenog

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

	1		8	4		5		
		6		2		3		
8			7					9
			6			4		
	2			8			6	
		7			5			
1					6			8
		5		7		9		
		3		5	8		1	

Swdocw

Gorffennaf:

Llongyfarchiadau i **Teifwen Evans, Blaenffynnon, Bryngwyn**, a diolch i'r canlynol am gystadlu: Eurwyn Davies, Llanybydder; Bethan Williams, Llanybydder; Glenys Davies, Llanybydder; Betty Prydderch, Llanllwni; Elma Phillips, Cellan; Joan Stacey, Ffaldybrenin a Sian Blake, Gorsgoch.

5	3	1	6	2	7	9	4	8
2	7	9	8	5	4	6	1	3
4	6	8	9	3	1	2	5	7
9	2	7	1	8	5	3	6	4
6	4	3	7	9	2	1	8	5
8	1	5	3	4	6	7	2	9
1	5	4	2	7	9	8	3	6
7	8	6	4	1	3	5	9	2
3	9	2	5	6	8	4	7	1

Ffarmers



Diolch

Dymuna Ray Davies, Peronne, Ffarmers ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd at Adran Gynaecoleg, Ysbyty Glangwili pan fu'n dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Codwyd swm anferthol o £1,400 a gyflwynwyd i Gronfa Gynaecoleg ac Obstetreg Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Elusennau Iechyd Hywel Dda. Diolch hefyd am yr holl gardiau a'r rhoddion ac am y parti pen-blwydd rhagorol gan Ferched y Wawr yn Neuadd Pumsaint. Hyfryd oedd cael cyfarchion ar raglen Shân Cothi a rhaglen 'Ar Eich Cais' Dai Jones.

Cellan



Llongyfarchiadau mawr i Siwan Mair Jones, Heol Bronwydd, Caerfyrddin, merch Catrin a Nigel Jones ac wyres Ken a Mary Jones Glasfryn, Cellan am ennill dwy wobwr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn eleni. Cafodd gyntaf yn yr unawd cerdd dant o dan 12 oed a chyntaf yn yr unawd alaw werin o dan 12 oed.

Cydymdeimlo

Danfônwn ein cydymdeimlad llwyrat at Rhonwen a Wynford Thomas a'r teulu, Pantygwin ar golli mam, mam-gu a hen fam-gu annwyl iawn, sef Mrs Eirwen Havard Davies o Lanwnnen yn ystod mis Awst.

Capel yr Erw

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw nos Fawrth, Hydref 10fed am 7 o'r gloch. Y pregethwr gwadd fydd y Parchedig Huw George, Sir Benfro. Croeso cynnes i bawb.

Pêl-droed



Roedd mis Gorffennaf yn brysur iawn i dîm pêl droed o dan 6 Llambed wrth iddynt gystadlu yn nhwrmament Caerfyrddin a thwrnament Bow Street. Cawsant lwyddiant arbennig yn y ddwy gystadleuaeth ac ennill wnaeth y bechgyn yn y ddau dwrnament. Anhygoel fechgyn! Llongyfarchiadau i Jac, Jay, Owen, Dion, Ethan a Tristan. Hefyn diolch yn fawr iawn i Paul Jones am hyfforddi'r plant.



Llongyfarchiadau enfawr i dîm pêl droed Llambed (o dan 8) am gyrraedd y gêm derfynol yn nhwrmament Bow Street. Colli o 1-0 oedd yr hanes yn y gêm derfynol. Da iawn Hari, Shane, Osian, Elis, Louie, Joshua, Jake ac Ifan. Diolch i Chris Walters am eu hyfforddi.

Llongyfarchiadau mawr i Hari Jones am ennill chwaraewr y twrnament. Bendigedig!



LAS *Recycling Ltd*



Gwasanaeth Casglu
Gwastraff Masnach
Am wasnaeth cost effeithiol a
dibynadwy ar gyfer eich holl
anghenion gwastraff cysylltwch â
ni ar: 01570 421421

Ffordd Tregaron, Llambed, Ceredigion, SA48 8LT

Gwasanaeth biniau ar olwynion **NEWYDD**
(1100L, 660L a 240L)



ARWYN VOBÉ
ACCOUNTANCY LTD.

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

- ❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim
- ❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau
- ❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW
- ❖ Cyflogau a CIS
- ❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Ieuan Jones
Adferwr Llundain
Cwrtcadno



Gwasanaeth troi Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphotorestoring.com

T. Emyr Jones
Adeiladwr



Araul, Cwmann
01570 423921
07867 945174

ANDREW JAMES
PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Llangybi a Betws



Pencampwr y defaid Texel yn Sioe Tregaron oedd hwrdd blwydd a'r is-bencampwr oedd hesben flwydd, y ddau yn eiddo i Rhodri Pugh-Davies o Llangybi.

Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Maesyffynnon brynhawn Mercher, Medi 20fed am 2.00y.p. Y gŵr gwadd yw Mr Gareth Jones o Lamed. Croeso cynnes i bawb.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i bawb a fu yn llwyddiannus yn eu haroliadau. Ymlaen yn awr yn hyderus i'r dyfodol. Llongyfarchiadau hefyd i bawb a fu yn fuddugol yn y Sioeau Amaethyddol yn ddiweddar.


Ebeneser

Bydd Oedfa Ddiolchgarwch Ebeneser brynhawn Sul Medi 24ain am 2.00y.p. Y cennad fydd y Parch Peter Thomas, Aberystwyth. Croeso cynnes i bawb.

Adferiad

Dymuniadau gorau am adferiad llwyr a buan i bawb a fu mewn ysbyty neu mewn cartrefi preswyl yn ddiweddar. Brysiwch wella.

Llanwnnen



Sioe Llanbed - Prif bencampwr yr Adran Wartheg, anner Limo 12 mis oed, eiddo Dai Thomas, Llanwnnen.



Cil Bencampwr y Brid, oen Texel Glas yn y Sioe Frenhinol yn cael ei ddangos gan Rhys Williams, Tynllyn, Llanwnnen.

GWASANAETHAU YSWIRIANT
FUW

Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG
Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk
Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyl yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Masnachwyr-coed, ffensiô a nwyddau adeiladu o bob math. Tanwydd gan gynnwys nwy FloGas a glo caled a meddal o'r ansawdd gorau

Cefn Hafod
Gorsgoch


Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun— Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238

Ceginau Lifestyle
LKitchens Ltd



CELFI CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR

SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'

- * Cacenau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
- * Bwffe mawr neu fach
- * Dantethion i de
- * Pwdinau
- * Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Shw mae? Wel mae'r haul wedi bod yn gwenu arnom yn ystod gwyliau'r haf eleni. Beth fuoch chi'n ei wneud yn ystod y gwyliau? Wel mi fues i yn adeiladu cestyll tywod ar draeth Cwmtedu, es i am dro i'r goedwig ger Llanybi, am drip i'r pwll nofio a chystadlu yn yr eisteddfod fawr yn Llanbed a chael sawl picnic gyda'm ffrindiau. Gwyliau bendigedig!! Ond nawr mae'n amser mynd nôl i'r ysgol a chyfle i weld hen ffrindiau a chwrdd â ffrindiau newydd.

Cefais lond sach o luniau lliwgar dros wythnosau'r haf. Roedd y postmon yn gorfod cael help llaw i gario'r holl luniau i'r tŷ. Roeddwn yn hoff iawn o luniau Jayce Jones, Gwion Miles, Alissa Rees-Wise, Elis Aur Haywood, Kayla Thompson, Shiyann Lewis, Tyler Methuan, Liwsi Brown, Marged Elen Evans, Dani Price ac Emily Rees-Wise o Felinfach; Tarran Evans, Logan Bartlett, Addiena Evans a Ronnie Bartlett o Gribyn; Elen Michelle Casso-Davies, Maia Morgans a Tomos Ceredig Casso-Davies o Demple Bar; Siencyn Lewis o Lanon; Ioan Price o Dalsarn; Tomos Jac Dalton, Llŷr Dalton a Solomon Edwards o Bont Creuddyn; Elin Pugh o Aberystwyth; Angharad Davies o Lanwenog; Gwennan Owen o Lanllwni; a Gwenno Ruth Jones o Lanarth. Ond y llun taclusaf a'r un mwyaf lliwgar oedd un Seren Evans, Lleifior, Cribyn. Da iawn bawb! Diolch yn fawr iawn i chi gyd am gystadlu a llongyfarchiadau mawr iawn i ti Seren!

Nawr beth am fynd ati i liwio llun o'r adnoddau newydd ar gyfer eich diwrnod cyntaf nôl yn yr ysgol? Cofiwch ei ddychwelyd i mi cyn **dydd Llun, Medi 25ain**. Mwynhewch eich liwio!

Ta ta tan toc.



Enillydd
y mis!

Seren
Evans

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



CILWNWG A TWLLACH (96)

Cyfaill o Felin-foel ger Llanelli a holodd am ystyr y ddau enw sy'n cael sylw y mis hwn. Er imi dreulio dipyn o amser yn yr ardal honno pan oeddwn yn blentyn, rhaid cyfaddef fod y ddau enw yn hollol ddiethr imi. Mae CILWNWG nid nepell o gronfa ddŵr Cwm Llidi.



Mae Cilwnwg yn hen enw a'r cyfeiriad cynharaf a welais oedd 1590. Erbyn hyn ceir Cilwnwg Fawr/Fach/Uchaf. Ceir hefyd Gelligilwnog.

Mae tystiolaeth y ffurfiau cynharaf ar yr enw sef Kylynog (1590), Celynnwg (1602) yn ein harwain i ystyried y ffurf 'celynnog'. Mae 'celynnog' yn ffurf sy'n digwydd yn gyffredin mewn enwau lleoedd. Dyma'r elfen a geir yn Clynnog Fawr a Clynnog Fechan.

Roedd y gelynen yn goeden o gryn bwys yn yr hen gymdeithas: gellid tocio canghennau uchaf coed celyn sylweddol a bwydo'r dail i greaduriaid.

Mae dail pigog y gelynen ar eu peryclaf yn agos at y ddaear er mwyn amddiffyn y gelynen rhag rhaib creaduriaid. Dyna drefn natur. Ond uchaf i gyd yw'r goeden, lleiaf pigog yw'r dail. Fel rheol dyw'r dail uchaf ddim yn bigog o gwbl ac felly yn ddeniadol i'n cyndeidiau ar gyfer sicrhau porthiant i ddefaid a gwartheg a cheirw. Ceir Esgair Celyn a Pen y Cae Celyn yn Llandeilo Fawr.

Tybiaf fod yr enw TWLLACH yn ffurf lafar ar TYWYLLACH sydd eto nid nepell o gronfa ddŵr Cwm Llidi.



TYWYLLWCH yw'r ffurf sy'n cael ei chofnodi ar fap Arolwg Ordnans 1830. Diau mai cyfeirio at safle mewn man cysgodol a wna'r enw.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru
enwaulleoedd@gmail.com

Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn 50 oed



Unawd dan 6 oed [cyf] – 1. Delun Aur Ebenezer, Cellan. 2. Tirion Marged Tomos, Pencarreg 3. Elliw Grug Davies, Llanybydder
Llefaru dan 6 [cyf] 1. Delun 2. Elliw 3. Tirion



Unawd 6 – 9 [cyf] 1. Ela Mablen Griffiths-Jones, Cwrtnewydd 2. Beca Elan Ebenezer, Cellan 3. Trystan Bryn Evans, Harford 4. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni 5. Fflur Meredith, Llambled a Fflur Morgan, Drefach
Llefaru 6-9 [cyf] – 1. Beca 2. Ela 3. Trystan 4. Fflur Morgan 5. Gwennan [absennol o'r llun]



Unawd 9-12 [cyf] – 1. Gruffydd Llwyd Dafydd, Abermeurig 2. Alwena Mair Owen, Llanllwni 3. Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig 4. Ffion Davies, Llanybydder 5. Ifan Meredith, Llambled.
Llefaru 9-12 [cyf] – 1. Gruffydd 2. Ffion 3. Ifan 4. Alwena 5. Betrys.



Canu Emyn dan 12 [cyf] – 1. Gruffydd Llwyd Dafydd, Abermeurig 2. Alwena Mair Owen, Llanllwni 3. Ela Mablen Griffiths-Jones, Cwrtnewydd 4. Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig 5. Ifan Meredith, Llambled.



Ela Mablen Griffiths Jones, Cwrtnewydd yn ennill y darian am Lefaru dan 8oed a'r cwpan am yr Alaw Werin dan 12 oed. Ela hefyd a dderbyniodd y Rose Bowl am y cystadleuydd mwyaf addawol yn y Steddfod ddydd Sadwrn.



Ffion Mai Davies, Llanybydder enillydd Unawd ar unrhyw offeryn cerdd gan gynnwys y piano dan 12.



Mali Gerallt, Ysgol Henry Richard a enillodd wobwr am yr eitem orau yn Adran Uwchradd y Celf a Chrefft.



Ifan Meredith, Llambled yn ennill y darian am Lefaru 10-12oed.



Alwena Mair Owen, Llanllwni yn ennill yr Unawd a'r Llefaru dan 8 oed ac yn ail ar yr Alaw Werin dan 12oed.



Lowri Elen, Llambled yn ennill Unawd o Sioe Gerdd, Alaw Werin dros 19 oed, Canu Emyn dan 60 a'r Sgen ti Dalent [cydradd].



Gwennan Jones, Llambled yn ennill yr Her Unawd dros 25 oed.

Gorsaf Brawf MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llanbedr, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305
07974 422 305

CYNGERDD MAWREDDOG

i ddathlu

50 oed

**Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen
Llanbedr Pont Steffan**

**7:30pm, Nos Sadwrn, Medi 16eg, 2017
yn Theatr Felinfach**

yng nghwmni:

**Côr Merched Canna
Steffan Rhys Hughes
Charlie Lovell-Jones**

**Ychydig o
docynnau
sydd ar ôl.**

Oedolion £10
Plant Ysgol £5

Tocynnau ar gael o'r theatr:
01570 470697
www.theatrfelinfach.cymru





CYFRi

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogytal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lán gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.



**Angen cludiant
i gael mynediad
i waith,
hyfforddiant,
addysg, gofal
iechyd, siopa
neu gyfarfod â
ffrindiau a
theulu?**

**Gall Bwcabus
eich cludo yno!**

Gwasanaeth yn gweithredu
o ddydd Llun i ddydd
Sadwrn o 7am - 7pm
Llinell archebu ar agor 7
diwrnod yr wythnos o 7am -
7pm
01239 801601

617 Bwlchfadfa - Llanbedr Pont Steffan

Drwy Talgarreg - Gorsgoch
Dydd Mawrth yn unig

am/pm	am
Rhydowen, Alltrodyn Arms	10.10
Pont-sian, gyf Neuadd	10.12
Bwlchfadfa, gyferbyn lloches	10.20
Talgarreg, Neuadd	10.23
Gorsgoch, Neuadd	10.31
Cwrt-newydd, gyf Llew Goch	10.35
Drefach, cofeb	10.40
Llanybydder, Cwm Aur	10.48
Llanwnnen, gyf Bro Grannell	10.57
Llanbedr Pont Steffan, Nat West	11.03
am/pm	pm
Llanbedr Pont Steffan, Llew Du	1.45
Llanwnnen, Bro Grannell	1.51
Alltyblacca, Chapel House	1.54
Llanybydder, Cwm Aur	2.00
Drefach, croesffordd	2.08
Cwrt-newydd, Llew Goch	2.13
Gorsgoch, gyferbyn Neuadd	2.17
Talgarreg, gyferbyn Neuadd	2.25
Bwlchfadfa, lloches	2.28
Pontsian, Neuadd	2.36
Rhydowen, gyf Alltrodyn Arms	2.38

618 Talsarn - Llanbedr Pont Steffan

Drwy Bwlchyllan - Silian
Dydd Mawrth yn unig

am/pm	am
Talsarn, gyf Maes Aeron	9.40
Bwlch-llan, Capel	9.48
Llangeitho, sgwar	9.57
Silian, lloches	10.22
Llanbedr Pont Steffan, Llew Du	10.30
am/pm	pm
Llanbedr Pont Steffan, Nat West	12.50
Silian, lloches	12.57
Llangeitho, sgwar	1.19
Bwlch-llan, lloches	1.27
Talsarn, Maes Aeron	1.34

**Mae Bwcabus yn rhoi mwy
o hyblygrwydd a chyfleoedd
i deithio rhwng trefi a
phentrefi lleol drwy
ddefnyddio siwrneiau a
archebir ymlaen llaw a/neu
wasanaethau amserlen
sefydlog.
Ffoniwch 01239 801 601.**

